Department for Business, Energy & Industrial Strategy

Mr Chris Jackson
Uwch-reolwr Prosiectau Datblygu
RES UK & Ireland Limited
Cedar House
Greenwood Close
Parc Busnes Porth Caerdydd
Caerdydd
CF23 8RD

**Department for Business, Energy & Industrial Strategy**
1 Victoria Street,
London SW1H 0ET
**T:** +44 (0) 20 7215 5000

**E:** beiseip@beis.gov.uk
**www.beis.gov.uk**
17 Rhagfyr 2021

Annwyl Foneddigion,

**DEDDF TRYDAN 1989**

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**AILBENDERFYNU AR GAIS AM GANIATÂD AR GYFER GORSAF GYNHYRCHU Â THYRBINAU GWYNT AR DIR YM MHOWYS, CANOLBARTH CYMRU (LLANBRYNMAIR)**

## 1. Y Cais

1.1. Fe’m cyfarwyddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (yr “Ysgrifennydd Gwladol”) i gyfeirio at y cais dyddiedig 27 Mawrth 2009 (“y Cais”) ar ran RES UK & Ireland Limited (“y Ceisydd”) am ganiatâd o dan adran 36 (“caniatâd adran 36”) o Ddeddf Trydan 1989 (“Deddf 1989”) i adeiladu a gweithredu gorsaf gynhyrchu â thyrbinau gwynt o hyd at 90MW o gapasiti gosodedig a seilwaith perthynol ar dir rhwng pentrefi Llanbrynmair a Llanerfyl, Powys (“y Datblygiad”), ac am gyfarwyddyd o dan adran 90(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 y dylid tybio bod caniatâd cynllunio ar gyfer y Datblygiad wedi’i roi.

1.2. Cyhoeddwyd y Cais yn unol â Rheoliadau Trydan (Ceisiadau am Ganiatâd) 1990 (“Rheoliadau 1990”) ac fe’i cyflwynwyd i’r personau perthnasol.

1.3. Yn unol â Rheoliadau Gwaith Trydan (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2000[1] fel y’u diwygiwyd (“Rheoliadau EIA”) cyflwynwyd Datganiad Amgylcheddol gyda’r Cais. Fe’i hategwyd â gwybodaeth ychwanegol ar ffurf gwybodaeth amgylcheddol atodol ym mis Awst 2013, mis Hydref 2013, mis Rhagfyr 2103 a mis Chwefror 2014. Cyfeirir at y dogfennau hyn gyda’i gilydd yn y llythyr hwn fel “y Datganiad Amgylcheddol”. Mae’r Datganiad Amgylcheddol yn disgrifio’r Datblygiad ac yn rhoi dadansoddiad o’i effeithiau ar yr amgylchedd. Yn unol â’r

[1] A ddisodlwyd gan Reoliadau Gwaith Trydan (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 2017 (“Rheoliadau 2017”).

Rheoliadau EIA cafodd y Datganiad Amgylcheddol ei hysbysebu a'i osod yn y bau gyhoeddus er mwyn rhoi cyfle i bobl gynnig sylwadau arno. Ym mis Awst 2012 diwygiwyd ffin y safle i ymgorffori tir sy'n angenrheidiol mewn cysylltiad â gwaith i wella llwybrau mynediad ar hyd y ffordd rhwng Llanerfyl a Thalerddig. Ym mis Chwefror 2014 diwygiwyd ffin y safle ymhellach i fynd i'r afael â llwybr rhannu mynediad a awgrymwyd gan Gyngor Sir Powys gyda fferm wynt arfaethedig Carnedd Wen ar y pryd.

## 2. Ymchwiliad Cyhoeddus

2.1. Yn sgil gwrthwynebiad i'r Cais gan Gyngor Sir Powys, yr awdurdod cynllunio perthnasol, bu'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol beri i ymchwiliad cyhoeddus ynglŷn â'r Cais gael ei gynnal o dan Atodlen 8 i Ddeddf 1989.

2.2. Gwrthwynebodd Cyngor Sir Powys hefyd bedwar cais arall am orsafoedd cynhyrchu â thyrbinau gwynt a wnaed i'r Ysgrifennydd Gwladol rhwng 2007 a 2009 o dan adran 36 o Ddeddf 1989: sef y ffermydd gwynt o'r enw "Carnedd Wen", "Llanbadarn Fynydd", "Llaithddu", "Ailbweru Llandinam"; a chynnig o dan adran 37 o Ddeddf 1989 am osod a chadw wedi'i gosod linell drydan uwchben 132kV o gynllun arfaethedig Ailbweru Llandinam hyd at Is-orsaf y Trallwng ("Llinell 132kV Llandinam") ym Mhowys. Gan hynny bu'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal ymchwiliad cyhoeddus o dan Atodlen 8 i Ddeddf 1989 i'r ceisiadau hyn hefyd ac roedd o'r farn bod agosrwydd y cynigion at ei gilydd a'u heffaith gronnol bosibl yn peri ei bod yn briodol defnyddio'r pŵer a roddir gan adran 62(3) o Ddeddf 1989 i gyfarwyddo cynnal ymchwiliad cyhoeddus cyfun ("yr Ymchwiliad") ar bob un o'r chwe chais.

2.3. Penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Mr A D Poulter ("yr Arolygydd") i lywyddu ar yr Ymchwiliad a oedd i gael ei gynnal o dan Reolau Gorsafoedd Cynhyrchu Trydan a Llinellau Uwchben (Gweithdrefn Ymchwiliadau) 2007 ("Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau").

2.4. Pan gyhoeddwyd yr Ymchwiliad, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ddatganiad o Faterion a oedd yn ei farn ef yn debygol o fod yn berthnasol i'w ystyriaethau ef ar y datblygiadau arfaethedig yn yr Ymchwiliad. Nodir y materion hynny ym mharagraff 12 o Adroddiad yr Ymchwiliad ("yr Adroddiad").

2.5. Cynhaliwyd cyfarfod rhagarweiniol gan yr Arolygydd ar 28 Tachwedd 2012 a chynhaliwyd cyfarfod cyn yr Ymchwiliad ar 18 a 25 Chwefror 2013. Dechreuodd yr Ymchwiliad ar 4 Mehefin 2013 a daeth i ben ar 30 Mai 2014. Cyflwynodd yr Arolygydd ei Adroddiad i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 8 Rhagfyr 2014. Cyhoeddir copi o'r Adroddiad a'r atodiadau ochr yn ochr â'r llythyr penderfynu hwn.

2.6. Ar 7 Medi 2015, gwrthododd[2] yr Ysgrifennydd Gwladol ganiatâd ar gyfer y Cais a'r holl geisiadau eraill y cyfeirir atynt uchod, heblaw cais Ailbweru Llandinam. Ar ôl i'r Ceisydd herio'r penderfyniad drwy adolygiad barnwrol, cydsyniodd yr Ysgrifennydd Gwladol ym mis Rhagfyr 2015 i'r penderfyniad mewn perthynas â'r Cais gael ei

[2] https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-wind-farm-applications-redetermination

ddiddymu. Yn yr un modd, yn dilyn her drwy adolygiad barnwrol gan geisydd fferm wynt arfaethedig Carnedd Wen, cydsyniodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd i'r penderfyniad hwnnw gael ei ddiddymu. Gan hynny, roedd yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ailbenderfynu ar geisiadau Llanbrynmair a Charnedd Wen. O gofio bod y safleoedd yn gyfagos i'w gilydd mewn darn mawr o lwyfandir uchel ger Talerddig, Foel/Llangadfan a Chwm Nant yr Eira, a chan fod yr Arolygydd wedi ystyried y ddau gynnig gyda'i gilydd yn ei adroddiad, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol y dylai'r ailbenderfyniad ar y ceisiadau a'r diweddariad angenrheidiol yn yr wybodaeth amgylcheddol gael eu cymryd gyda'i gilydd a hynny fel Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd mewn cyfuniad.

2.7. Ar 6 Gorffennaf 2016 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ddatganiad o Faterion yn gwahodd sylwadau ar nifer o gwestiynau a oedd yn cynnwys yr effeithiau ar y dirwedd a'r effeithiau gweledol mewn perthynas â ffermydd gwynt arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen, yn unigol ac yn gronnol, yn ogystal â mesurau lliniaru ac adfer ecolegol arfaethedig a chael gwared ar dyrbinau gwynt unigol o'r datblygiadau arfaethedig, a digonolrwydd yr wybodaeth amgylcheddol. Dechreuodd cylch ymgynghori pellach, yn gofyn am sylwadau ar y sylwadau a oedd wedi dod i law, ar 20 Medi 2016. Ar 16 Chwefror 2018, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at geiswyr ffermydd gwynt Llanbrynmair a Charnedd Wen yn gofyn am ragor o wybodaeth i lywio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Cafwyd ymatebion ym mis Mawrth 2018, a gofynnwyd am ragor o wybodaeth oddi wrth y ceiswyr a Cyfoeth Naturiol Cymru ar 20 Mehefin 2018. Ar 6 Medi 2018 ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at Cyfoeth Naturiol Cymru a phartïon eraill yn gwahodd sylwadau ar y wybodaeth hon, ac ymatebodd nifer o bartïon. Ar 19 Rhagfyr 2018, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at y ceiswyr a Chyngor Sir Powys yn gofyn am ragor o wybodaeth o ganlyniad i ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru, sef gwybodaeth a ddaeth i law wedyn. Mae'r holl ddogfennau ymgynghori a'r ymatebion a gafwyd wedi'u cyhoeddi yma: https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-wind-farm-applications-redetermination

2.8. Ar 5 Chwefror 2020, ysgrifennodd ceisydd fferm wynt Carnedd Wen at yr Ysgrifennydd Gwladol yn tynnu ei gais ar gyfer y prosiect hwnnw yn ôl yn ffurfiol. Gan fod ymgynghoriad yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth i ailbenderfynu ar y ddau gais, ceir adroddiad ar yr wybodaeth sy'n ymwneud â'r ddau lle bo hynny'n berthnasol er mwyn deall y broses ymgynghori ac er mwyn ailbenderfynu ar y Datblygiad yn unig. Nid yw materion sy'n ymwneud â fferm wynt Carnedd Wen yn unig yn cael eu hystyried ymhellach yn y llythyr hwn.

**2.9.** Mae cyfieithiad Cymraeg o bob dogfen benderfynu allweddol y cyfeirir ati yn y llythyr hwn wedi'i gyhoeddi, neu i'w gyhoeddi'n fuan, yn https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-wind-farm-applications-redetermination, neu maent ar gael drwy wneud cais.

## 3. Gweithdrefn Ailbenderfynu ar Benderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol

3.1. Yn unol â rheol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau[3], ar 6 Gorffennaf 2016 cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol Ddatganiad o Faterion[4] i bob Parti â Buddiant ynghylch y materion a oedd yn debygol o fod yn berthnasol i benderfyniadau'r Ysgrifennydd Gwladol ar y ddau gais. Y materion a oedd yn berthnasol i ailbenderfynu ar y Datblygiad oedd:

*i)* *tirwedd ac effaith weledol unigol Datblygiad arfaethedig Llanbrynmair;*

*ii)* *…*

*iii)* *tirwedd ac effaith weledol gyfun Datblygiadau arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen ill dau;*

*iv)* *effaith gronnol Datblygiad arfaethedig Llanbrynmair gyda ffermydd gwynt eraill yn ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu lle gwnaed cais am ganiatâd cynllunio (heb gynnwys Datblygiad arfaethedig Carnedd Wen);*

*v)* *…*

*vi)* *effaith gronnol gyfun Datblygiadau arfaethedig Llanbrynmair a Charnedd Wen gyda ffermydd gwynt eraill yn ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu lle gwnaed cais am ganiatâd cynllunio;*

*vii)* *i ba raddau y byddai'r mesurau arfaethedig ar gyfer lliniaru, adfer neu adsefydlu ecolegol a thynnu tyrbinau gwynt unigol ... yn gwneud iawn am unrhyw effeithiau andwyol ar y dirwedd a'r golygfeydd (yn unigol, yn gyfun neu'n gronnol) a gâi'r Datblygiadau arfaethedig;*

*viii)* *pa mor ddigonol yw'r wybodaeth amgylcheddol a gynhyrchwyd i ategu'r ceisiadau am y Datblygiadau ac a oes angen gwybodaeth amgylcheddol ychwanegol neu fwy diweddar erbyn hyn; a*

*ix)* *unrhyw faterion eraill sy'n codi ers 7 Medi 2015 y mae'r partïon sydd â buddiant yn hyn o beth o'r farn eu bod yn berthnasol i ailbenderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol ar y ceisiadau.*

3.2. Yn unol â Rheol 23(1)(b) o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau, cynigiodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd y cyfle i'r Partïon â Buddiant ofyn i'r Ymchwiliad gael ei ailagor.

3.3. Cyhoeddwyd y sylwadau a ddaeth i law ar wefan GOV.UK a rhoddwyd cyfle pellach ar 20 Medi 2016 i'r Partïon a Buddiant gyflwyno sylwadau ar y sylwadau a ddaethai i law. Cyhoeddwyd yr holl sylwadau a ddaeth i law'r Ysgrifennydd Gwladol o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau yma:

---

[3] http://legislation.data.gov.uk/uksi/2007/841/made/data.htm?wrap=true

[4] https://www.gov.uk/guidance/consents-and-planning-applications-for-national-energy-infrastructure-projects

https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-wind-farm-applications-redetermination

Penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol nad oedd angen ailagor yr Ymchwiliad.

**4. Crynodeb o Argymhelliad yr Arolygydd**

4.1. Argymhelliad yr Arolygydd yw y dylai caniatâd adran 36 a chaniatâd cynllunio tybiedig gael eu rhoi ar gyfer y tyrbinau gwynt a'r seilwaith cysylltiedig, ond nid i'r graddau y mae'n ymwneud â chreu llwybr ar gyfer Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin yn ddarostyngedig i amodau (paragraffau 675 a 676). Yn y llythyr hwn cyfeirir at amodau yn y caniatâd cynllunio tybiedig fel "amodau cynllunio".

5. **Ystyriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol ar Adroddiad yr Arolygydd a ffactorau perthnasol eraill**

5.1. Cafodd canllawiau'r Llywodraeth ar y broses ganiatáu ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir uwchben 50MW yng Nghymru a Lloegr eu cyhoeddi ym mis Hydref 2007[5].

5.2. Mae paragraff 4.1 o'r Canllawiau yn darparu fel a ganlyn:

"In reaching his decision, the Secretary of State must take account of relevant factors. These factors can vary from case to case but include Government Policy (both energy and other Government policies); planning considerations (including national, regional and local plans and guidance); environmental issues; local issues and the views of the relevant planning authorities and local people; Government statutory advisers; the applicant's arguments in favour of the proposal; and any other relevant representations received on the proposal. Each case is considered on its individual merits".

5.3. Mae Paragraff 4.2 yn nodi meini prawf amrywiol ar gyfer asesu ceisiadau. Mae Paragraff 4.5 yn nodi y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn ystyried adroddiad yr Arolygydd o unrhyw ymchwiliad cyhoeddus.

5.4. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yr Adroddiad a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill yn ofalus, gan gynnwys y sylwadau a gafwyd yn dilyn diwedd yr Ymchwiliad ac yn ystod y broses ailbenderfynu. Nodir ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar yr Adroddiad ac unrhyw faterion perthnasol eraill yn y paragraffau a ganlyn. Mae'r holl gyfeiriadau â rhifau, oni nodir yn wahanol, yn gyfeiriadau at baragraffau'r Adroddiad.

5.5. Ac eithrio fel y nodir fel arall yn y llythyr hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn cynnwys llawn yr Adroddiad fel y mae'n ymwneud â'r Cais, gan gynnwys canfyddiadau'r Arolygydd ar faterion ffeithiol, ei gasgliadau a'i argymhelliad (gan gynnwys y rhesymau dros yr argymhelliad hwnnw).

[5] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/43573/Section_36_guidance.pdf

Sylwadau a ddaeth i law ar ôl i'r Ymchwiliad gau

5.6. Ar ôl i'r Ymchwiliad gau, daeth nifer o sylwadau i law'r Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi mai amseriad penderfyniadau yn unig sydd o dan sylw mewn rhai ac felly nad oes angen eu hystyried ymhellach. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi bod yna alw am foratoriwm ar adeiladu rhagor o ffermydd gwynt nes bod canfyddiadau adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan yr adran oddi wrth WSP Parsons Brinkerhoff ynghylch sŵn modylu osgledau ("AM") wedi'u cyhoeddi. Mae'r adroddiad hwn bellach wedi'i gyhoeddi ac mae wedi'i gymryd i ystyriaeth yn ystyriaethau'r Ysgrifennydd Gwladol.

5.7. Cyfeiriodd rhai sylwadau hefyd at ymrwymiadau ym maniffesto'r Blaid Geidwadol yn 2015 (h.y. yr ymrwymiad yn y maniffesto a darpariaethau'r Bil Ynni arfaethedig ar y pryd (Deddf Ynni 2016 erbyn hyn) i sicrhau na fyddai penderfyniadau yn y dyfodol ar ganiatâd cynllunio ar gyfer ffermydd gwynt ar y tir yn cael eu gwneud gan yr Ysgrifennydd Gwladol, a hefyd i leihau cymorthdaliadau ar gyfer gwynt ar y tir). Er na fydd ceisiadau cynllunio newydd ar gyfer gwynt ar y tir yn fater i'r Ysgrifennydd Gwladol, mae'n ofynnol i'r penderfyniad ar y Cais hwn gael ei wneud ganddo gan fod y cais wedi'i wneud cyn i'r Ddeddf gael ei chyflwyno. At hynny, nid yw gostyngiadau mewn cymorthdaliadau yn fater cynllunio perthnasol.

5.8. O ran sylwadau sy'n codi materion penodol ynglŷn â'r Datblygiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi adolygu'r sylwadau a gafwyd ac mae o'r farn bod y rhain i raddau helaeth yn codi materion a godwyd cyn neu yn ystod yr Ymchwiliad ac, i'r graddau y bernir eu bod eisoes wedi cael sylw gan yr Arolygydd wrth iddo ystyried yr Ymchwiliad ac yn ei Adroddiad dilynol, nid ymdrinnir â hwy ymhellach yn y llythyr hwn. Er hynny, o ran pryderon ynglŷn â sŵn AM, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Prif Gynllunydd Llywodraeth Cymru, ar ôl i adroddiad sŵn AM WSP Parsons Brinkerhoff gael ei gyhoeddi ar 25 Hydref 2016[6], wedi ysgrifennu at awdurdodau cynllunio lleol Cymru ar 31 Hydref 2016 gan eu hannog i ystyried yr adroddiad wrth benderfynu a fyddai amod cynllunio ynghylch sŵn AM yn briodol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio tyrbinau gwynt. Yn hyn o beth, nodir bod amod cynllunio ynghylch sŵn AM wedi'i argymell gan yr Arolygydd, yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ar gyfer asesu a rheoleiddio AM gormodol gael ei gymeradwyo'n ysgrifenedig gan Gyngor Sir Powys. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod modd mynd i'r afael yn ddigonol â'r pryderon a godwyd mewn perthynas â sŵn AM drwy gynnwys amod cynllunio (55) (sef amod y mae wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at yr Adroddiad).

Sylwadau oddi wrth Bartïon â Buddiant o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau

5.9. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod dros 100 o sylwadau wedi dod i law o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau sy'n ymwneud ag ailbenderfynu'r Cais a'r cais am fferm wynt Carnedd Wen. Maen nhw'n ymdrin ag amryw o faterion gan gynnwys: effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol (gan gynnwys effaith

[6] https://www.gov.uk/government/publications/review-of-the-evidence-on-the-response-to-amplitude-modulation-from-wind-turbines

gronnol); traffig adeiladu; swyddi twristiaeth; cysylltiad â'r grid; angen; ysbeidioldeb ffermydd gwynt; lleoliaeth; sŵn; henebion cofrestredig; diwydiannu; mawn; digonolrwydd gwybodaeth amgylcheddol; *Nodyn Cyngor Technegol 8 Llywodraeth Cymru: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy* (2005) (TAN 8); gorfodi amodau cynllunio; perygl llifogydd; ecoleg; a digonolrwydd y cynllun arfaethedig i adfer cynefinoedd. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ceisio ymdrin yn gynhwysfawr â'r materion a godwyd yn y sylwadau. Mae o'r farn, ran amlaf, fod y sylwadau'n cyflwyno materion a godwyd cyn neu yn ystod yr Ymchwiliad i raddau ac, i'r graddau y bernir eu bod eisoes wedi cael sylw gan yr Arolygydd wrth iddo ystyried yr Ymchwiliad ac yn ei Adroddiad dilynol, dim ond pan fernir bod hynny'n briodol yr ymdrinnir â hwy ymhellach yn y llythyr hwn. Pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod materion newydd wedi'u codi, fe gyfeirir atynt yn y llythyr hwn.

5.10. Yn benodol, rhoddodd Datganiad Materion yr Ysgrifennydd Gwladol gyfle i Bartïon â Buddiant gyflwyno sylwadau ar ddigonolrwydd yr wybodaeth amgylcheddol a gynhyrchwyd i ategu'r Cais ac a oes angen rhagor o wybodaeth amgylcheddol neu wybodaeth amgylcheddol wedi'i diweddaru. Er bod nifer o bartïon â buddiant wedi cyflwyno sylwadau neu wedi cyflwyno nifer o erthyglau gwyddonol newydd ar effeithiau posibl ffermydd gwynt ar y tir gan gynnwys ar ystlumod ac adar neu wedi cyfeirio at y rhain, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn nad ydynt yn codi unrhyw faterion newydd a fyddai'n gofyn am wybodaeth amgylcheddol bellach neu wedi'i diweddaru. Wrth ddod i'r farn honno, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi pwys ar y ffaith na fynegodd Cyfoeth Naturiol Cymru y farn bod angen rhagor o wybodaeth amgylcheddol neu wybodaeth amgylcheddol wedi'i diweddaru.

5.11. Mae safbwynt Llywodraeth Cymru yn dal fel y nodwyd yn flaenorol o ran cadwraeth natur. Er bod Llywodraeth Cymru wedi dweud bod eu safbwynt yn hyn o beth yn amodol ar ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru ac unrhyw gyngor pellach a ddarperid gan Cyfoeth Naturiol Cymru i Lywodraeth Cymru, yn ei hymateb, dim ond cadw at ei safbwynt blaenorol a wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru. Nid yw safbwynt Llywodraeth Cymru ar drafnidiaeth wedi newid (h.y. nid oes ganddi wrthwynebiad o ran egwyddor, gan fanylu ar nifer o amodau cynllunio drafft arfaethedig a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Ymchwiliad ym mis Chwefror 2014, ac a ystyriwyd gan yr Arolygydd).

5.12. At hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod safbwynt Cyngor Sir Powys yn dal fel y'i nodwyd yn yr Ymchwiliad.

<u>Yr Angen am y Datblygiad a'r Polisi ynglŷn ag Angen</u>

5.13. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried barn yr Arolygydd a nodir ym mharagraffau 40-59 o'r Adroddiad, y casgliadau ar y Cais ym mharagraffau 649-653 a'r sylwadau a gafwyd o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau.

5.14. Mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ("NPSs") EN-1 (NPS Cyffredinol ar gyfer Ynni) ac EN-3 (NPS ar gyfer Seilwaith Ynni Adnewyddadwy) yn nodi angen cenedlaethol am ddatblygu seilwaith cynhyrchu trydan newydd o bwys cenedlaethol o'r math a gynigir gan y Ceisydd. Mae paragraff 3.3.15 o EN-1 yn dweud: "…In order to secure energy supplies that enable us to meet our obligations for 2050 [hynny yw bod y Deyrnas Unedig yn torri allyriadau nwyon tŷ gwydr o leiaf 80% o'i gymharu â lefelau 1990], there is an urgent need for new (and particularly low carbon) energy NSIPs [hynny yw, prosiectau ynni sy'n arwyddocaol yn

genedlaethol] to be brought forward as soon as possible, and certainly in the next 10 to 15 years, given the crucial role of electricity as the UK decarbonises its energy sector". Mae paragraff 3.4.2 yn dweud: "Large scale deployment of renewables will help the UK to tackle climate change … To hit this target, and to largely decarbonise the power sector by 2030, it is necessary to bring forward new renewable electricity generating projects as soon as possible. The need for new renewable electricity generating projects is therefore urgent".

5.15. Ar 2 Mai 2019, argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd y dylai'r Deyrnas Unedig leihau ei hallyriadau nwyon tŷ gwydr i sero net erbyn 2050. Cynigiwyd hyn er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau a wnaed gan y Deyrnas Unedig drwy lofnodi Cytundeb Paris yn 2016. Ar 26 Mehefin 2019 cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig darged 'sero net' newydd ar gyfer 2050 a arweiniodd at ddiwygio Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 gan ei gwneud yn ofynnol i'r Deyrnas Unedig leihau allyriadau carbon net erbyn 2050 o 80% i 100% yn is na llinell sylfaen 1990. Cafodd chweched Gyllideb Garbon y Deyrnas Unedig ei hymgorffori yn y gyfraith ar 22 Mehefin 2021 ac mae angen gostyngiad o 78% mewn allyriadau erbyn 2035 o'i gymharu â lefelau 1990. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y mesurau hyn wedi rhoi hwb pellach i'r nodau datgarboneiddio a nodir yn NPS EN-1.

5.16. Er i'r NPSs gael eu dynodi a'u gosod gerbron y Senedd o dan Ddeddf Cynllunio 2008, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn eu bod nhw, fel prif fynegiant polisi'r Deyrnas Unedig mewn perthynas â seilwaith cynhyrchu trydan dros 50MW yng Nghymru a Lloegr, yn ffactor perthnasol i'w ystyried wrth benderfynu ar geisiadau o dan Ddeddf 1989 ar gyfer seilwaith o'r fath ac y dylent gario pwysau sylweddol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod hyn yn dal yn wir er, yn dilyn newidiadau diweddar yn y ddeddfwriaeth, na fydd ceisiadau newydd am seilwaith o'r math a gynigir gan y Ceisydd yn cael eu penderfynu o dan Ddeddf Cynllunio 2008 mwyach. Cafodd y Papur Gwyn Ynni, Powering Our Net Zero Future, ei gyhoeddi ar 14 Rhagfyr 2020. Cyhoeddodd y papur adolygiad o'r gyfres o Ddatganiadau Polisi Cenedlaethol ynni ond cadarnhaodd nad oedd y Datganiadau Polisi Cenedlaethol presennol yn cael eu hatal yn y cyfamser. Gan hynny, mae'r Datganiadau Polisi Cenedlaethol ynni perthnasol yn dal yn sail i ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar y Cais. Mae gwynt ar y tir wedi'i dynnu o fersiynau drafft y Datganiadau Polisi Cenedlaethol diwygiedig yr ymgynghorir arnynt ar hyn o bryd. Serch hynny, yn y cyfamser, mae'r polisi sy'n cefnogi gwynt ar y môr o fewn y Datganiadau Polisi Cenedlaethol presennol yn dal ar waith.

5.17. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod yr angen am brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd fel y Datblygiad wedi'i sefydlu ac na fyddai rhoi caniatâd yn anghydnaws â tharged chweched Gyllideb Garbon 2035 neu darged Sero Net 2050 – fel y'u pennir yng Ngorchymyn Cyllideb Garbon 2021 a Gorchymyn Deddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 (Diwygio Targed 2050) 2019 yn y drefn honno. Am y rhesymau a nodir yn y llythyr hwn, mae hefyd yn fodlon y byddai rhoi caniatâd yn gyson ag NPSs EN-1 ac EN-3, ac eithrio'r cynnig i ddefnyddio llwybr ar hyd y ffordd rhwng Llanerfyl a Thalerddig i roi mynediad ar gyfer Llwythi Anwahanadwy Anghyffredin ("AILs"), yn niffyg unrhyw effeithiau andwyol sy'n annerbyniol mewn termau cynllunio.

5.18. Ar 22 Mehefin 2015, gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd ddatganiad llafar i'r Senedd. Dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol:

> "The Electricity Market Reform Delivery Plan projects that we require between 11-13GW of electricity to be provided by onshore wind by 2020 to meet our 2020 renewable electricity generation objective while remaining within the limits of what is affordable. We now have enough onshore wind in the pipeline, including projects that have planning permission, to meet this requirement comfortably. Without action we are very likely to deploy beyond this range. We could end up with more onshore wind projects than we can afford – which would lead to either higher bills for consumers, or other renewable technologies, such as offshore wind, losing out on support…It is therefore appropriate to curtail further subsidised deployment of onshore wind, balancing the interests of onshore developers with those of bill payers."

5.19. Mae sylwadau a ddaeth i law o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau (gan gynnwys oddi wrth y "Cynghrair" o grwpiau ac unigolion sy'n gwrthwynebu'r datblygiad a thystiolaeth atodol y Dr Constable) yn awgrymu y dylid lleihau'r pwysau a roddir i'r NPSs yng ngoleuni'r datganiad hwn. Ond, nid yw'r datganiad yn gwahardd rhagor o ddatblygiadau gwynt ar y tir ac mae angen ei ystyried yn y cyd-destun y cafodd ei wneud ynddo: mae'n ymwneud ag amcanestyniadau yng Nghynllun Cyflawni Diwygiad y Farchnad Drydan ynghylch cyfraniad gwynt ar y tir tuag at gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy y Deyrnas Unedig ar gyfer 2020, yr angen i reoli'r costau i ddefnyddwyr a'r angen i sicrhau nad yw technolegau heblaw gwynt ar y tir yn colli cefnogaeth. Ymhellach, y tu hwnt i 2020, mae'r angen am amrywiaeth o ynni adnewyddadwy yn parhau. Mae Papur Gwyn Ynni'r Llywodraeth (Rhagfyr 2020) wedi nodi strategaeth y Llywodraeth ar gyfer symud i ffwrdd oddi wrth danwyddau ffosil gan ddatgarboneiddio'r economi'n gost-effeithiol erbyn 2050, gan gynnwys cyflymu'r defnydd o gynhyrchu trydan glân drwy'r 2020au. Mae prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd fel y Datblygiad yn debygol o chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddatgarboneiddio cynhyrchu trydan, sef nod y mae'r NPSs yn cyfeirio ato. Mae'r newid a wnaed yn 2019 i gynyddu targed 2050 yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 o 80% i 100% wedi cynyddu'r angen am ffynonellau o'r fath. Gan hynny, er gwaethaf datganiad 22 Mehefin 2015 ac er y gallai'r Datblygiad fod wedi'i ddatgomisiynu erbyn 2050, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod angen amrywiaeth o fathau o brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd, gan gynnwys gwynt ar y tir, er mwyn datgarboneiddio'r sector pŵer a chynyddu'r capasiti i gynhyrchu trydan adnewyddadwy fel rhan o'r llwybr at gyrraedd targedau tymor hwy y Deyrnas Unedig ar gyfer 2050, y mae'r NPSs hefyd yn cyfeirio atynt. Felly, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod yr angen am brosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd fel y Datblygiad yn dal yn angen brys.

5.20. Fel y mae'r Canllawiau ar y broses gydsynio ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir dros 50MW yng Nghymru a Lloegr yn egluro, mae cynlluniau a chanllawiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ffactorau perthnasol i'w hystyried wrth wneud unrhyw benderfyniad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod argraffiad 11 o Bolisi Cynllunio Cymru wedi'i gyhoeddi ym mis Chwefror 2021 ac mae'n fodlon bod y Datblygiad yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru a nodir ym *Mholisi Cynllunio Cymru* (fel y'i hategir gan gylchlythyrau'r llywodraeth, llythyrau'r gweinidogion a

chyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Nododd TAN 8, Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy, (y nodyn cyfarwyddyd a oedd yn ei le tan fis Chwefror 2021) ardaloedd yng Nghymru, a elwir yn Ardaloedd Chwilio Strategol, y bernir mai nhw yw'r lleoliadau mwyaf priodol ar gyfer datblygu ffermydd gwynt ar y tir ar raddfa fawr. Bydd y Datblygiad yn Ardal Chwilio Strategol B (SSA B). Mewn llythyr oddi wrth Weinidogion Cymru ym mis Gorffennaf 2011 at y Prif Swyddogion Cynllunio[7] ceir eglurder ar gwestiwn y capasiti gosodedig mwyaf ar gyfer gwynt ar y tir yn Ardaloedd Chwilio Strategol A i G a nodwyd yn TAN 8 (hynny yw 1666MW) a'r capasiti posibl o 2GW ar gyfer ynni gwynt ar y môr a amcangyfrifwyd yn *'Chwyldro Carbon Isel - Datganiad Polisi Ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru'*, Mawrth 2010[8]. Mae'r llythyr o'r farn bod capasiti o 430MW yn briodol ar gyfer SSA B. Yn lle Ardaloedd Chwilio Strategol, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi Ardaloedd a Aseswyd Ymlaen Llaw lle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi modelu'r effaith debygol ar y dirwedd ac wedi penderfynu y gallant gymryd datblygiad mewn modd derbyniol. Yn yr ardaloedd hyn, ceir rhagdybiaeth o blaid datblygiad ynni gwynt ar raddfa fawr, yn amodol ar feini prawf eraill (para 5.9.17 o Bolisi Cynllunio Cymru). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod tyrbinau arfaethedig Fferm Wynt Llanbrynmair yn gorwedd o fewn Ardal 3.

5.21. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi'r sefyllfa bresennol yn yr hen SSA B (gan gynnwys ystyried gwybodaeth a geir yn sylwadau Cyngor Sir Powys o dan reol 23) sef bod ffermydd gwynt eraill â chapasiti gosodedig o 151.55MW naill ai'n weithredol neu wedi cael caniatâd cynllunio hyd yn hyn (gan gynnwys fferm wynt Carno III 45MW, sydd wedi'i chymeradwyo, ond sy'n amodol ar gytundeb adran 106 a dirprwyo amodau). Byddai gan y Datblygiad gapasiti gosodedig o hyd at 90MW. Hefyd, nid yw'r cais am fferm wynt 18-tyrbin 45MW Esgair Cwmowen wedi'i benderfynu eto gan Gyngor Sir Powys. Serch hynny, gyda'i gilydd, ni fyddai pob fferm wynt sydd wedi cael caniatâd ac sydd heb ei phenderfynu yn yr hen SSA B yn fwy na'r uchafswm capasiti o 430MW a bennwyd ar gyfer SSA B.

*5.22.* Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y Datblygiad hefyd yn gyson ag uchelgais Llywodraeth Cymru o greu economi carbon isel sy'n darparu cyfoeth a manteision hirdymor i gefnogi cymunedau, fel y nodir yn *Ynni Cymru – Newid Carbon Isel* (2012).

5.23. I gloi, barn yr Ysgrifennydd Gwladol yw bod yr angen am y Datblygiad yn ffactor sy'n pwyso o blaid rhoi caniatâd i'r Datblygiad, ac mae'n ffactor y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwysau sylweddol iddo.

<u>Danfoniadau mynediad lleol i Lwythi Anwahanadwy Anghyffredin ("AILs")</u>

5.24. Nododd yr Arolygydd fod gwrthwynebiad allweddol Cyngor Sir Powys yn ymwneud â'r cynnig i ddefnyddio rhan ogleddol y ffordd rhwng Llanerfyl a Thalerddig i ddarparu mynediad lleol i AILs ("cynllun mynediad arfaethedig AILs"), sef pryderon a rennid gan Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Cynghrair. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol, aflonyddu ac anghyfleustra i

[7] http://gov.wales/docs/desh/publications/110706planningtan8letteren.pdf
[8] http://www.mng.org.uk/gh/resources/100315energystatementen.pdf

ddefnyddwyr eraill y ffordd, effeithiau ar fywyd gwyllt ac ecoleg gan gynnwys coed, gwrychoedd, pathewod, ystlumod, dyfrgwn a mawn.

5.25. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi casgliadau'r Arolygydd y byddai'r cynllun mynediad arfaethedig i'r AILs yn arwain at effeithiau andwyol ar y dirwedd ac effeithiau gweledol andwyol a fyddai'n arwyddocaol yn lleol, ac y byddai rhai ohonynt yn dymor canolig i hirdymor tra byddai eraill yn barhaol. Byddai gwaith ffyrdd a chau ffyrdd yn creu anghyfleustra ac aflonyddwch dros gyfnod sylweddol gyda chostau ariannol ac amgylcheddol perthynol. Ceid niwed tymor byr i ganolig i goed a gwrychoedd yr effeithir arnynt, er ei bod yn annhebygol y byddai effeithiau arwyddocaol ar bathewod, ystlumod neu ddyfrgwn, ac er na cheid effeithiau arwyddocaol ar adneuon mawn yng nghyd-destun y prosiect cyfan [Adroddiad yr Arolygydd ("IR") 302]. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad yn gyson â pholisi cynllunio cenedlaethol, Cymreig na lleol. O dan yr amgylchiadau hyn, roedd yr Arolygydd o'r farn na fyddai manteision y Datblygiad yn ei gyfanrwydd yn drech na'r niwed ac y dylid gwrthod y cynllun mynediad arfaethedig i'r AILs [IR 669].

5.26. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi'r anfanteision a nodwyd ynglŷn â'r cynllun mynediad arfaethedig i'r AILs ac yn cytuno â chasgliad yr Arolygydd na fyddai manteision y Datblygiad yn ei gyfanrwydd yn drech na'r niwed, pe caniateid iddo fwrw ymlaen ar y sail honno.

5.27. Gan hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn troi ei sylw at y cwestiwn a oes modd dileu'r cynllun mynediad arfaethedig i AILs o'r Datblygiad ac, ar ôl gwneud hynny, rhoi caniatâd i weddill y Datblygiad. Wrth ystyried y posibilrwydd hwn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dod i'r casgliad y dylai roi caniatâd i'r Datblygiad heb y cynllun mynediad arfaethedig i AILs dim ond os yw'n fodlon bod dull amgen o fynediad i AILs yn ddichonadwy. Yn hyn o beth, mae wedi ystyried yr opsiwn yn awgrym Cyngor Sir Powys y gellid rhannu mynediad lleol ar gyfer danfoniadau AILs gyda'r llwybr a gynigiwyd yn wreiddiol gyda chais fferm wynt Carnedd Wen ("y cynllun mynediad"), ac mae wedi ystyried goblygiadau tynnu cais fferm wynt Carnedd Wen yn ôl ar gyfer y gallu i fabwysiadu'r camau hyn.

5.28. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi mai'r casgliadau allweddol yng ngwybodaeth amgylcheddol atodol y Ceisydd ym mis Chwefror 2014 oedd na fyddai effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol y cynllun mynediad yn fwy na'r cynllun mynediad arfaethedig i'r AILs, ac na fyddai fawr o golled llystyfiant ac na fyddai unrhyw effeithiau ar rywogaethau gwarchodedig nac asedau hanesyddol. Ni fyddai unrhyw effaith sylweddol ar ddaeareg, hydroleg na hydroddaeareg. Does dim rhesymau trafnidiaeth dros beidio â defnyddio'r cynllun mynediad, a byddai colledion carbon drwy gloddio mawn yn gostwng. Byddai effeithiau tirwedd y traciau ychwanegol rhwng y ddwy fferm wynt arfaethedig yn fach iawn yng nghyd-destun y ddau brosiect. Byddai anghyfleustra, amhariad a chostau ariannol ac amgylcheddol perthynol y cynllun mynediad arfaethedig i'r AILs yn cael eu hosgoi ynghyd â niwed i goed a gwrychoedd [IR 310/311]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â chasgliad yr Arolygydd y byddai'r cynllun mynediad yn llawer mwy dymunol na'r cynllun mynediad arfaethedig i AILs [IR 312].

5.29. O ran effaith y cynllun mynediad ar gyflawni'r Datblygiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Ceisydd, ar ddiwedd yr Ymchwiliad Cyhoeddus, o'r farn na fyddai'r cynllun mynediad yn peryglu hyfywedd y Datblygiad, ar yr amod y gellid dod i gytundeb ynghylch amseru a chost gyda datblygwr fferm wynt Carnedd Wen, [IR 670].

5.30. O ran y materion ymarferol ynglŷn â rhoi'r cynllun mynediad ar waith, cydnabu'r Arolygydd fod y cynllun mynediad yn dibynnu ar ganiatâd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i fferm wynt arfaethedig Carnedd Wen ac ar ddarpariaeth i ddatblygwr fferm wynt Carnedd Wen i ystyried darparu mynediad a rennir wrth ddatblygu ei Gynllun Rheoli Traffig Strategol a'r cynlluniau adeiladu a rheoli amgylcheddol manwl [IR 672]. Cadarnhaodd yr Arolygydd fod yr amodau angenrheidiol mewn perthynas â'r cynnig hwn wedi'u trafod.

5.31. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr Arolygydd o'r farn y gallai datblygwr Llanbrynmair wneud cais mewn perthynas â mynediad lleol AILs ar gyfer y Datblygiad pe bai caniatâd ar gyfer fferm wynt Carnedd Wen yn cael ei wrthod [IR 673]. Beth bynnag, tynnodd datblygwr fferm wynt arfaethedig Carnedd Wen ei gais yn ôl ar 5 Chwefror 2020 sydd â goblygiadau o ran ailbenderfynu ar gais Llanbrynmair. Ar 25 Awst 2020, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol at y Ceisydd yn gofyn am ragor o wybodaeth yng ngoleuni'r ffaith bod cais fferm wynt Carnedd Wen wedi'i dynnu'n ôl, gan gynnwys y cynnig i rannu'r llwybr AILs gyda Charnedd Wen. Mae'r llythyr gan y Ceisydd at yr Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 2 Medi 2020 yn ei gwneud yn glir ei fod yn cefnogi hyn fel dull posibl pe na bai'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon caniatáu'r cais gyda'i lwybr gwreiddiol i'r AILs. Nododd gwybodaeth bellach a ddarparwyd gan y Ceisydd i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 9 Hydref 2020 y byddai'n bosibl i fferm wynt Llanbrynmair ofyn am ganiatâd cynllunio ar gyfer llwybr AILs a fyddai'n cydymffurfio â chais gwreiddiol fferm wynt Carnedd Wen, a chadarnhau bod cytundeb gyda'r tirfeddianwyr i ganiatáu mynediad naill ai wedi'i sicrhau neu wrthi'n cael ei negodi gyda'r cytundeb yn amodol ar roi'r caniatâd adran 36. Ar y sail hon, does gan yr Ysgrifennydd Gwladol ddim reswm i farnu na fyddai modd cyflawni'r Datblygiad. Er hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi penderfynu y byddai'n briodol mewnosod amod na ellir cynnal unrhyw ddatblygiad hyd nes y bydd y Ceisydd wedi sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer llwybr AILs newydd gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol er mwyn osgoi gwaith dibwys ac effeithiau diangen perthynol os bydd y Ceisydd yn methu â sicrhau llwybr o'r fath.

5.32. O ran y cwestiwn a oes gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer o dan Ddeddf 1989 i addasu'r Cais drwy ddileu'r cynllun mynediad AILs arfaethedig o'r Datblygiad a rhoi caniatâd ar gyfer gweddill y Datblygiad, mae'n amlwg bod Deddf 1989 yn galluogi cais am ganiatâd adran 36 i gael ei ganiatáu yn amodol ar ddiwygiadau. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod diwygio'r Cais fel hyn yn newid sylweddol.

5.33. Gan hynny, bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn ystyried y Cais ar y sail hon.

<u>Lleoliaeth</u>

5.34. Ar 18 Mehefin 2015, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol Ddatganiad Ysgrifenedig Gweinidog yn manylu ar newidiadau yn y polisi cynllunio yn Lloegr. Mae'r datganiad yn rhoi gofynion ar waith y dylid dangos bod yna gefnogaeth leol i geisiadau ffermydd gwynt ar y tir. Er bod nifer o sylwadau

a gafwyd o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau yn codi lleoliaeth fel mater y dylid rhoi pwys arwyddocaol arno yn y broses benderfynu, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi nad yw'r Datganiad hwn yn cael effaith yng Nghymru. Gan hynny, nid yw'r Datganiad yn ffactor y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwysau arno wrth benderfynu a ddylid rhoi caniatâd ar gyfer y Datblygiad ai peidio.

5.35. Serch hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod, yn unol â’r Canllawiau ar y broses ganiatáu ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir dros 50MW yng Nghymru a Lloegr, fod barn yr awdurdodau cynllunio perthnasol a phobl leol yn ffactorau perthnasol i'w hystyried, ac mae wedi gwneud hynny wrth benderfynu ar y Cais. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y rhan fwyaf o'r bobl a siaradodd yn yr Ymchwiliad, neu a gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig i'r Ymchwiliad neu a gyflwynodd sylwadau o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau, yn gwrthwynebu'r Datblygiad, er bod rhywfaint o gefnogaeth wedi’i fynegi hefyd.

<u>Effeithiau ar y Dirwedd ac Effeithiau Gweledol</u>

5.36. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi casgliadau'r Arolygydd mewn perthynas ag effeithiau niweidiol y tyrbinau arfaethedig ar dirwedd a nodweddion gweledol Cwm Nant yr Eira. Roedd yr Arolygydd o'r farn y byddai'r niwed yn cael ei gyfyngu i oes weithredol y Datblygiad ac y ceid gwelliannau i'r dirwedd yn y pen draw drwy glirio coedwigoedd ac adfer rhostir ac nad yw effeithiau gweledol y tyrbinau yn annerbyniol, er eu bod yn sylweddol yn achos nifer o eiddo preswyl [IR 666].

5.37. O ran effeithiau tirwedd ar Barc Cenedlaethol Eryri ("y Parc") ac oddi yno, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi ystyriaeth yr Arolygydd ar yr effeithiau cronnol a’r effeithiau cyfun ar y dirwedd, amwynder gweledol a nodweddion arbennig y Parc ym mharagraffau 388-395 o'i Adroddiad, gan gynnwys, er y byddai'r Datblygiad yn bellach na fferm wynt Carnedd Wen, y câi'r ddwy fferm wynt eu darllen fel un cynllun [IR 388 a 394]. Er y byddai'r Datblygiad a fferm wynt Carnedd Wen gyda'i gilydd yn un o'r cyfranwyr mwyaf at y golygfeydd dros ffermydd gwynt yn y panorama, mae barn yr Arolygydd y byddai maint yr effaith weledol ar yr argraff o harddwch naturiol, tawelwch ac undod yn cael ei leihau'n fawr o bell wedi’i nodi hefyd [IR 394].

5.38. O ran yr effaith ar y golygfeydd o'r Parc, mae paragraff 391 o'r Adroddiad yn ymdrin â'r manteision hirdymor a fyddai'n deillio o gael llystyfiant naturiol yn lle coedwigaeth. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr Arolygydd wedi dod i’r casgliad, mewn perthynas â'r Datblygiad, y byddai'r effeithiau andwyol arwyddocaol ar y golygfeydd o’r Parc yn cael eu cyfyngu i adran y de-ddwyrain ac, ar ben hynny, yn cael eu cyfyngu i oes weithredol y Datblygiad, ac y ceid effeithiau buddiol yn y tymor hir ar yr olygfa allan o'r Parc [IR 666]. Mae hyn yn gyson â chasgliad yr Arolygydd y byddai cynigion y Datblygiad yn hyn o beth, o ran cymeriad tirwedd Cwm Nant yr Eira, yn gwrthbwyso presenoldeb y tyrbinau ar hyd oes weithredol y Datblygiad [IR 385].

5.39. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad oes dim effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol arwyddocaol ar nodweddion tirwedd y Parc. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn fodlon bod yr effeithiau andwyol arwyddocaol ar olygfeydd o'r Parc wedi'u cyfyngu i adran y de-ddwyrain ac mai dros oes y Datblygiad yn unig y byddai’r rhain yn para, ac yn y tymor hir y ceid effeithiau buddiol ar olygfeydd allan

o'r Parc ac mai bach fyddai’r effeithiau ar nodweddion arbennig y Parc, p’un a yw’r rheiny’n cael eu hasesu'n unigol ynteu mewn cyfuniad â phrosiectau eraill sy'n bodoli eisoes neu brosiectau arfaethedig [IR 666].

5.40. Ar ôl ystyried y sylwadau a gyflwynwyd gan bartïon â buddiant, gan gynnwys y rhai a gafwyd o dan reol 23 o Reolau'r Weithdrefn Ymchwiliadau, ar y cyfan mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Arolygydd y byddai'r niwed yn cael ei gyfyngu i'r gwaith adeiladu ac i oes weithredol y Datblygiad, ac mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod manteision tymor hwy y Datblygiad o leiaf yn cydbwyso ei effeithiau andwyol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi bod yr Arolygydd o'r farn bod yr elfen fwyaf o niwed gweledol yn codi o fferm wynt Carnedd Wen, ac o ganlyniad mae o'r farn y bydd effaith fferm wynt Llanbrynmair yn unig yn cael ei lleihau. Nid yw effaith y Datblygiad ar y dirwedd a’i effaith weledol yn y tymor byr yn pwyso’n arwyddocaol yn erbyn rhoi caniatâd ar gyfer y Datblygiad.

<u>Bioamrywiaeth</u>

5.41. Mae'r caniatâd adran 36 yn cynnwys gofynion ynglŷn â chynllun rheoli mawn (gweler amod cynllunio (46)) a chynllun rheoli cynefinoedd (gweler amod cynllunio (41)), i’w seilio ar gynlluniau drafft sy'n darparu ar gyfer mesurau adfer a rheoli cynefinoedd hirdymor a gynlluniwyd i wella'r safle [IR 323]. Mae'r Arolygydd yn nodi y byddai'r Datblygiad yn arwain at adfer rhyw 200ha o gorsydd a gwernydd a chael gwared ar ryw 149ha o goedwigoedd ar gynefinoedd mawn blaenorol ac y byddai'r arwynebedd o dir a fyddai'n cael ei wella o ran ei werth cadwraeth a'i amrywiaeth yn llawer mwy na'r arwynebedd y byddai traciau mynediad a seilwaith yn effeithio arni. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â'r Arolygydd y byddai'r Datblygiad yn darparu cynnydd hirdymor net o ran cynefinoedd a bioamrywiaeth [IR 324]. Dyma ffactor sy'n pwyso o blaid rhoi caniatâd ar gyfer y Datblygiad.

<u>Llwybrau Trafnidiaeth Strategol, Aflonyddwch ac Anghyfleustra o’r Traffig Adeiladu</u>

5.42. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod nifer o sylwadau a ddaeth i law o dan reol 23 o’r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau yn codi pryderon ynghylch aflonyddwch yn sgil y traffig adeiladu, gan gynnwys aflonyddwch cronnol a fyddai’n codi o fferm wynt arall sy'n cael ei hadeiladu ym Mhowys ar hyn o bryd.

5.43. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod pryderon parhaus partïon â buddiant o ran aflonyddwch ac anghyfleustra a achosir gan y traffig adeiladu, gan gynnwys AILs. Mae'n nodi bod yr Arolygydd wedi cydnabod bod cryn dipyn o waith wedi'i wneud hyd at ac yn ystod yr Ymchwiliad i ddatblygu Cynlluniau Rheoli Trafnidiaeth Strategol ("STMPs") drafft ar gyfer y pum fferm wynt a ystyriwyd yn yr Ymchwiliad, er nad oes STMP wedi'i gwblhau eto ar gyfer y Datblygiad, gan fod y cyfnodau yn arwain at ddatblygu yn hir ac efallai y bydd angen ystyried amgylchiadau a datblygiadau sy’n newid [IR 513].

5.44. Roedd yr Arolygydd yn fodlon bod dyluniad y gwaith angenrheidiol oddi ar y safle wedi'i ddatblygu a bod ei effeithiau amgylcheddol tebygol wedi'u hasesu. Mae o'r farn y byddai'r gwaith arfaethedig yn gwella gallu'r prif rwydwaith ffyrdd i ddarparu ar gyfer cerbydau mawr ac nad oes arwydd na fydd caniatâd yn cael ei roi ar gyfer unrhyw waith oddi ar y safle.

5.45. Mae'r Arolygydd hefyd yn nodi bod effaith gyfunol yr holl draffig adeiladu yn dderbyniol i'r awdurdodau priffyrdd perthnasol ac yn dod i'r casgliad bod gan y rhwydwaith ffyrdd y capasiti i gymryd y cynnydd mewn traffig heb oedi annerbyniol, aflonyddwch na chynnydd yn y risg i ddiogelwch priffyrdd. Byddai mesurau rheoli, a gâi eu sicrhau gan amodau cynllunio, yn sicrhau bod y traffig adeiladu yn defnyddio llwybrau cytûn, yn hytrach na llwybrau llygod a llwybrau llygad [IR 510].

5.46. O ran AILs, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod Cynllun Rheoli Traffig Strategol ar gyfer Ffermydd Gwynt Canolbarth Cymru (Awst 2012) ("STMP Awst 2012") wedi'i ddatblygu ar ran Renewable UK Cymru ac wedi'i ystyried yn yr Ymchwiliad, a hwnnw'n nodi'r egwyddorion cyffredinol ar gyfer rheoli'r gwaith o ddanfon cydrannau tyrbinau ar ffurf AILs. Roedd STMP Awst 2012 hefyd yn cynnwys adran gyffredin o lwybr strategol ar gyfer symud AILs tua'r de o Ddociau Ellesmere Port gan ddefnyddio'r M53, yr A55, yr A483, yr A5 a'r A483 i'r Trallwng. Mae Adran 1 o STMP Awst 2012 yn rhoi trosolwg; mae adran 2 yn ymdrin â'r llwybr o Ellesmere Port i'r Trallwng; ac mae Adran 3 yn ymdrin â'r llwybr o'r Trallwng i SSA B (gogledd).

5.47. Mae'r Arolygydd yn cydnabod y byddai'r Datblygiad yn creu nifer fawr o gonfoiau AILS a âi drwy'r cymunedau lleol, gan achosi aflonyddwch dyddiol dros gyfnod o fisoedd. Er hynny, mae hefyd yn cydnabod y byddai hyd yr aflonyddwch ar gyfer unrhyw gymuned benodol yn gyfyngedig ac y byddai'r ffaith bod confoiau'n cael eu hebrwng gan yr heddlu (y byddai'r datblygwyr yn talu amdano) yn sicrhau diogelwch ac yn lleihau unrhyw anghyfleustra. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi, er enghraifft, fod STMP Awst 2012 yn darparu y bydd uchafswm o un confoi yn mynd drwy'r Trallwng ac uchafswm o un confoi yn mynd drwy'r Drenewydd rhwng 7am a 7pm ar unrhyw un diwrnod o'r wythnos er mwyn cyfyngu ar yr effaith ar gymunedau lleol (paragraff 7.2.2, Adran 1).

5.48. Mae Cyngor Sir Amwythig wedi cyflwyno sylwadau fel rhan o'r broses ailbenderfynu ynghylch effaith traffig adeiladu a thraffig cynnal a chadw, gan gynnwys yr effaith ar gymunedau ar hyd yr A483, digonolrwydd ffisegol y rhwydwaith ffyrdd a'r potensial i gau ffyrdd er mwyn darparu ar gyfer AILs. Darparodd Cyngor Sir Amwythig hefyd gopi o'i sylwadau dyddiedig 25 Chwefror 2014 a ddarparwyd yn flaenorol i'r Ymchwiliad, ac a oedd yn cynnwys pryderon am y lefel ddigynsail o lwythi anghyffredin a fyddai'n mynd drwy aneddiadau Pant a Llanymynech, sy'n cael eu hollti gan yr A483.

5.49. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi ystyriaeth yr Arolygydd ar y pryderon a godwyd ynglŷn ag AILs a thraffig adeiladu ar gyfer y Datblygiad [IR 513] ac y byddai newidiadau i'r seilwaith ffyrdd yn parhau ar ôl cwblhau'r Datblygiad ac yn gwella capasiti'r prif rwydwaith ffyrdd ar gyfer cerbydau mawr. Barn yr Arolygydd yw y byddai newidiadau felly o ryw fudd hirdymor i faterion sydd o fudd cyhoeddus [IR 514].

5.50. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn derbyn y bydd rhywfaint o aflonyddwch yn sgil y traffig ac anghyfleustra i bobl leol ar adegau penodol, mae'n fodlon bod modd lliniaru'r rhain drwy gynlluniau rheoli traffig ar gyfer y traffig adeiladu yn gyffredinol a'r AILs ar gyfer y Datblygiad.

5.51. Mae amod cynllunio (33) yn darparu na fydd unrhyw waith adeiladu yn digwydd ar y safle hyd nes y bydd cynllun rheoli traffig adeiladu mewn perthynas â thraffig adeiladu cyffredinol wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Powys ac wedi'i gymeradwyo ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol. O ran AILs, mae amod cynllunio (30) yn darparu na chaiff unrhyw AILs gyrraedd hyd nes y bydd cynllun rheoli traffig ar gyfer AILs wedi'i gyflwyno i Gyngor Sir Powys ac wedi'i gymeradwyo ar ôl ymgynghori â'r awdurdodau priffyrdd perthnasol. Yn ychwanegol, mae amod cynllunio (30), fel y'i diwygiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun rheoli traffig ar gyfer AILs gyd-fynd ag Adrannau 1, 2 a 3 o STMP Awst 2012. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod cynnwys amodau o'r fath yn ffordd briodol ac effeithiol o reoli pryderon ynghylch traffig, gan y bydd y cynlluniau a gymeradwywyd yn gallu cymryd i ystyriaeth y gwaith a wneir mewn perthynas â materion traffig hyd at a chan gynnwys yr Ymchwiliad. O ran AILs yn benodol, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod gofyn i'r cynllun rheoli traffig ar gyfer AILs gyd-fynd yn gyffredinol ag Adrannau 1, 2 a 3 o STMP Awst 2012 yn ffordd briodol o ddelio ag effeithiau AILs.

5.52. Er ei fod yn cydnabod pryderon Cyngor Sir Amwythig y cyfeirir atynt uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi yr ymgynghorwyd ag Adran Briffyrdd Cyngor Sir Amwythig ar STMP Awst 2012 a bod ei Adran Briffyrdd wedi dweud nad oedd gan Gyngor Sir Amwythig, fel awdurdod priffyrdd lleol cyfagos, unrhyw wrthwynebiad i roi STMP Awst 2012 ar waith. O ran yr effaith ar gymunedau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y gellir lliniaru'r effeithiau hyn drwy gynnwys amod cynllunio (30). Er enghraifft, fel y nodwyd uchod, mae paragraff 7.2.2 o Adran 1 o STMP Awst 2012 yn ei gwneud yn glir y bydd uchafswm o un confoi AILs yn mynd drwy'r Trallwng a'r Drenewydd bob dydd. Bydd hyn felly'n gosod terfyn ar nifer y confoiau sy'n mynd drwy Pant a Llanymynech.

5.53. Wrth ddod i'r farn hon, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod STMP Awst 2012 yn cydnabod y bydd y llwybr sy'n dilyn yr A483 o gylchfan Mile End yng Nghroesoswallt, Sir Amwythig hyd at ffin Cymru yn Llanymynech yn un gerbytffordd sy'n 7.3 metr o gerbytffordd neu lai, sef lled cerbytffordd is. Mae paragraff 3.2.2 o Adran 2 o STMP Awst 2012 yn cydnabod "it is likely that oncoming traffic will conflict with the convoys due to the reduced carriageway width. The police escort will keep the convoy moving as much as possible, but a backup network of passing places will be provided as described in chapter 6 of the Overview report".

5.54. I gloi, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, mae effaith traffig adeiladu (gan gynnwys AILs) yn ffactor sy'n pwyso yn erbyn rhoi caniatâd i'r Datblygiad. Er hynny, gyda'r mesurau lliniaru sydd i'w rhoi ar waith a'r budd tymor hwy i'r rhwydwaith ffyrdd a geir drwy amodau cynllunio, nid yw'n ffactor y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwysau arwyddocaol arno.

Twristiaeth

5.55. Mae nifer o sylwadau (gan gynnwys y rhai a gafwyd o dan reol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau) yn codi pryderon ynghylch effaith y Datblygiad ar ddefnyddwyr hamdden, gan gynnwys cerddwyr, ar Ffordd Glyndŵr ac yn fwy cyffredinol ar dwristiaeth ym Mhowys. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi'r pryderon hyn, gan gynnwys bod yr Arolygydd, o ran Ffordd Glyndŵr, wedi derbyn y

byddai rhai cerddwyr yn cael eu hatal rhag defnyddio'r adran drwy'r Datblygiad, er y byddai clirio coedwigoedd yn gwella rhai golygfeydd o'r llwybr [IR 317]. Er hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi casgliad yr Arolygydd na châi'r Datblygiad effaith andwyol arwyddocaol ar gyflawnder cyffredinol Ffordd Glyndŵr na’r defnydd arni [IR 516]. Nid yw'r Arolygydd ychwaith yn nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol ar lwybrau hamdden neu lwybrau twristiaeth eraill [IR 517, 524]. Er bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod yr effaith andwyol ar yr adran berthnasol o Ffordd Glyndŵr, mae'n nodi y bydd effaith o'r fath yn cael ei chyfyngu i oes weithredol y Datblygiad ac yn cytuno â chasgliad yr Arolygydd ar y materion hyn. Gan hynny, er bod effaith y Datblygiad ar dwristiaeth yn pwyso yn erbyn rhoi caniatâd, nid yw'n ffactor y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwysau arwyddocaol arno.

<u>Effeithiau Posibl Eraill</u>

5.56. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cytuno â'r Arolygydd y byddai effeithiau'r Datblygiad ar hydroleg, hydroddaeareg a mawn yn cael eu lliniaru gan yr amodau cynllunio arfaethedig. Byddai perygl llifogydd yn cael ei liniaru gan gynlluniau i godi'r lefel trwythiad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod pryderon wedi'u codi ynghylch effaith bosibl y Datblygiad ar gyflenwadau dŵr preifat. Mae'n nodi casgliad yr Arolygydd ar drylwyredd yr wybodaeth amgylcheddol atodol a gyflwynwyd ym mis Awst 2013 mewn perthynas â hydroleg a hydroddaeareg, gan gynnwys ystyried ansawdd dŵr a chyflenwadau dŵr preifat, na wnaeth Cyfoeth Naturiol Cymru na Chyngor Sir Powys anghytuno â nhw [IR 331]. Mae'r effeithiau ar hydroleg, hydroddaeareg a mawn yn ffactorau sy'n pwyso yn erbyn rhoi caniatâd ar gyfer y Datblygiad, ond gan y byddai'r effeithiau'n cael eu lliniaru, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwys arwyddocaol ar y ffactorau hyn.

5.57. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno ymhellach na cheid unrhyw niwed arwyddocaol i iechyd o sŵn, dirgrynu neu gysgodion symudol [IR 667].

5.58. O ran treftadaeth ddiwylliannol, mae un parti â buddiant wedi cyfeirio at eu barn nhw bod angen i'r Ysgrifennydd Gwladol roi cryn bwys ychwanegol yn y cydbwysedd cynllunio i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a'r effaith arwyddocaol ar safleoedd o werth treftadaeth hyd yn oed pan nad yw'r ffabrig yn cael ei ddinistrio mewn gwirionedd.

5.59. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi ystyriaeth yr Arolygydd ar dreftadaeth ddiwylliannol [IR 327-329] a’i gasgliad nad oes tystiolaeth y byddai'r Datblygiad yn niweidio diddordeb arbennig neu arwyddocâd hanesyddol yr asedau hyn, er y byddai'n cael effaith weledol nodedig ar Fynwent Carnedd Ffridd Cwm y Ffynnon a henebion cofrestredig Bryngaer Moel Ddolwen, [IR 327]. Yn yr un modd, mae'r Arolygydd yn fodlon na châi'r Datblygiad effaith arwyddocaol ar arwyddocâd lleoliad ffermdy Abercommon na'i ddiddordeb hanesyddol arbennig, ac na fyddai lleoliad unrhyw adeilad rhestredig arall yn cael ei effeithio'n sylweddol [IR 328]. Cyhyd ag y ceir amodau ynglŷn ag archaeoleg yn y caniatâd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi na wnaed unrhyw wrthwynebiadau i'r Datblygiad gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys, Cadw na Chyngor Sir Powys [IR 329]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi’r pwysigrwydd a’r pwysau sydd i’w rhoi i unrhyw niwed i ased diwylliannol ac mae’n fodlon na fyddai effaith y Datblygiad ar

dreftadaeth ddiwylliannol yn groes i nodau'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu henebion hanesyddol a'r polisi cynllunio perthnasol.

5.60. I gloi, er bod effaith y Datblygiad ar asedau treftadaeth ddiwylliannol yn pwyso yn erbyn rhoi caniatâd i'r Datblygiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y byddai'r effaith yn gyfyngedig ac yn cyd-fynd â pholisïau Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 11, Chwefror 2021), ac nid yw'n darparu cyfiawnhad dros beidio â gwneud y gorchymyn.

Effeithiau Cronnol ac Effeithiau Cyfun yr holl Gynlluniau

5.61. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod yr Arolygydd wedi ystyried amryw o faterion ynglŷn ag effeithiau cronnol a chyfunol pob un o'r pum fferm wynt arfaethedig a ystyriwyd yn yr Ymchwiliad, ac wedi ystyried cynlluniau eraill yn ardal Powys sydd eisoes wedi cael caniatâd cynllunio neu lle y gwnaed cais am ganiatâd cynllunio. Yr effeithiau allweddol oedd: effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol; effeithiau traffig adeiladu; sŵn adeiladu a sŵn gweithredol; ac effeithiau ar fioamrywiaeth, gan gynnwys gweithrediad ecolegol safleoedd Ewropeaidd a rhywogaethau a warchodir gan Ewrop. Ystyriodd hefyd effeithiau cymdeithasol ac economaidd (gan gynnwys effeithiau ar dwristiaeth), iechyd pobl, treftadaeth ddiwylliannol, hedfan, hydroddaeareg ac effeithiau ar fawn, yn ogystal â'r potensial i'r ffermydd gwynt gael eu cysylltu â rhwydwaith y grid. Ystyriwyd yr effeithiau hyn o fewn SSA B [IR 378-395] ac yn ehangach [IR 498-559]. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno â rhesymu a chasgliadau'r Arolygydd ar effeithiau cronnol ac effeithiau cyfunol yr holl gynlluniau.

5.62. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi mai dim ond dau gynnig newydd sydd wedi'u nodi gan Bartïon â Buddiant yn y waelodlin gronnol ers 7 Medi 2015. Y cyntaf yw fferm wynt 15MW newydd Njord Energy, Bryn Blaen, i'r gogledd o Langurig. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn deall bod y prosiect, a gymeradwywyd ar apêl ym mis Awst 2016, wedi'i leoli y tu allan i’r hen SSA B ac yn bell iawn o'r Datblygiad. Nodir hefyd fod y casgliad hwn yn cael ei ategu gan brawf tystiolaeth tyst tirwedd Cyngor Sir Powys ym mis Ebrill 2016 ar gyfer apêl Bryn Blaen (sy'n nodi mai dim ond Carno III, Ailbweru Llandinam a Mynydd y Gwynt sydd â'r potensial i arwain at effeithiau cronnol arwyddocaol gyda fferm wynt Bryn Blaen). At hynny, does dim sylwadau eraill a gafwyd yn y broses ailbenderfynu’n awgrymu y byddai fferm wynt Bryn Blaen yn cael effaith gronnol gyda naill ai'r Datblygiad neu fferm wynt Carnedd Wen. Gan hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y bydd fferm wynt Bryn Blaen yn cael effaith gronnol arwyddocaol ar y Datblygiad.

5.63. Yr ail oedd fferm wynt saith tyrbin yr Hendy, a gymeradwywyd ar apêl ym mis Hydref 2018. Mae hon y tu allan i'r Ardaloedd Chwilio Strategol a rhyw 35-40 milltir o'r Datblygiad. Does dim sylwadau a gafwyd yn y broses ailbenderfynu’n awgrymu y byddai fferm wynt Hendy yn cael effaith gronnol gyda naill ai'r Datblygiad neu fferm wynt Carnedd Wen. Gan hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y byddai fferm wynt Hendy yn cael unrhyw effeithiau cronnol arwyddocaol gyda'r Datblygiad.

5.64. Mae Vattenfall wedi tynnu sylw at eu cynnig nhw ym Mynydd Lluest y Graig o fewn SSA B. Er hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y prosiect yn gyfuniad o gynlluniau cynharach Vattenfall ym Mynydd Waun Fawr a Rhyd Ddu, a oedd yn rhan o'r waelodlin gronnol ac a ystyriwyd felly yn y dystiolaeth i'r Ymchwiliad a hefyd

yng ngwaith ymresymu'r Arolygydd a'i gasgliadau. At hynny, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol bod y prosiect wedi'i dynnu'n ôl o'r system gynllunio wedyn. Yn yr un modd, er bod partïon â buddiant wedi rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa prosiectau ffermydd gwynt eraill ym Mhowys (er enghraifft, gan dynnu sylw at y ffaith eu bod wedi cael caniatâd, wedi'u gwrthod neu wedi'u tynnu'n ôl wedyn), gan gynnwys fferm wynt Esgair Cwmowen nad yw Cyngor Sir Powys wedi penderfynu arni eto, roeddent i gyd wedi'u cynnwys yn y waelodlin gronnol a ystyriwyd yn yr Ymchwiliad ac felly nid ydynt yn effeithio'n sylweddol ar resymu a chasgliadau'r Arolygydd.

5.65. Ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, mae effeithiau cronnol ac effeithiau cyfun y Datblygiad yn ffactorau sy'n pwyso yn erbyn rhoi caniatâd i'r Datblygiad. Er hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi pwys arwyddocaol ar y ffactorau hyn yn y cydbwysedd cynllunio.

Cysylltiad â'r Grid

5.66. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y Canllawiau ar y broses ganiatáu ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu ar y tir dros 50MW yng Nghymru a Lloegr yn nodi mai'r arfer gorau yw i geisiadau am ganiatâd adran 36 a chwmnïau dosbarthu/trosglwyddo ymgysylltu â'i gilydd i sicrhau bod ceisiadau am ganiatâd adran 36 yn ystyried unrhyw ganlyniadau ar gyfer cysylltu â'r Grid. Mae'r Canllawiau hefyd yn nodi y dylid cyflwyno ceisiadau am gysylltiadau yn ddelfrydol o fewn yr amserlen ar gyfer penderfyniadau ar geisiadau am ganiatâd adran 36. Does dim cais ar wahân am gysylltu'r Datblygiad â'r Grid wedi'i gyflwyno eto.

5.67. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried casgliadau'r Arolygydd ar gysylltiad y Datblygiad â'r Grid [IR 336] yng ngoleuni'r polisi a nodir yn EN-1. Effaith Adran 4.9 o EN-1 yw, pan na wneir cais am orsaf gynhyrchu gyda chais am gysylltiad â'r grid, cyn rhoi caniatâd i'r orsaf gynhyrchu, rhaid i'r penderfynwr fod yn fodlon nad oes rheswm amlwg pam na fyddai'r cysylltiad yn bosibl ac nad oes rheswm amlwg pam mae'r gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer y cysylltiad yn debygol o gael ei gwrthod.

5.68. Mae cytundeb cysylltiad y Ceisydd ag SP Manweb yn rhag-weld y ceid cysylltiad â'r grid drwy is-orsaf hwb arfaethedig yng Nghefn Coch. Er hynny, mae'r Arolygydd yn nodi bod y cysylltiad hwn (a'r llinell 400kV berthynol) yn debygol o gael ei wrthwynebu'n gryf gan Gyngor Sir Powys ac nad yw'n cael ei gefnogi gan Lywodraeth Cymru [IR 336].

5.69. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod 'Adolygiad Opsiynau Cysylltu â'r Grid' wedi'i baratoi gan Mott MacDonald ym mis Rhagfyr 2013 ar ran ceiswyr y pedair fferm wynt newydd a ystyriwyd yn yr Ymchwiliad ac a gyflwynwyd fel Atodiad 2.1 i wybodaeth amgylcheddol atodol y Ceisydd dyddiedig Rhagfyr 2013 [IR 502]. Ystyriodd yr adolygiad amryw o senarios ar gyfer opsiynau cysylltu, gan gynnwys cysylltiad drwy un neu ddwy gylched 132kV o SSA B i'r safle etifeddol, ger Croesoswallt, rhyw 70km o SSA B. Mae'n tynnu sylw at faterion technegol sy'n ymwneud â rheoleiddio foltedd a mwy o golli pŵer yn ystod trosglwyddo 132kV ac mae o'r farn y byddai canolfan 400/132kV yng Nghefn Coch hefyd yn caniatáu cysylltu safleoedd cynhyrchu gwynt yn y dyfodol heb fod angen rhagor o gylchedau 132kV hir. Drwyddi draw, mae'r adolygiad yn casglu, os yw pob un o'r pum fferm

wynt a ystyrir yn yr Ymchwiliad i gael eu cysylltu, y byddai'r cysylltiad arall, drwy'r hwb 440/132kV yn well. Er hynny, er ei fod yn nodi'r pellteroedd hir sy'n gysylltiedig â'r cysylltiadau 132kV arfaethedig, mae'r adolygiad hefyd o'r farn bod modd rheoli materion technegol sy'n ymwneud â rheoleiddio foltedd yn 132kV yn foddhaol, mae'n debyg.

5.70. Daeth yr Arolygydd i'r casgliad nad oes rheswm technegol pam na ellid cysylltu'r Datblygiad â System Drosglwyddo'r Grid Cenedlaethol ar 132kV [IR 336]. Ei farn ef yw y gellid allforio hyd at 320MW o SSA B drwy gyfrwng llinellau ar bolion pren 132kV i gysylltu â System Drosglwyddo'r Grid Cenedlaethol wrth y safle etifeddol, a fyddai'n fwy na digon i ateb anghenion y Datblygiad [IR 505].

5.71. O ran y cwestiwn a oes rheswm amlwg pam mae'r gymeradwyaeth angenrheidiol ar gyfer y cysylltiad yn debygol o gael ei gwrthod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod Cyngor Sir Powys yn derbyn y gallai cysylltiadau â'r grid drwy gyfrwng llinell uwchben 132kV cyfochrog o'r Datblygiad i'r safle etifeddol fod yn dderbyniol "in landscape and visual terms, both in their own right and cumulatively, subject to appropriate detailed design and mitigation, including the consideration of undergrounding and alternative designs such as parallel twin trident poles, to reasonably minimise the landscape and visual effects". [IR 336 ac IR Atodiad 9, paragraff 860]. Casgliad yr Arolygydd yw bod yr asesiad lefel uchel o effeithiau ar y dirwedd ac effeithiau gweledol yn dangos y gallai ateb o'r fath fod yn dderbyniol o safbwynt yr amgylchedd [IR 505].

5.72. Mae un parti â buddiant (Shropshire North Against Pylons) mewn sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r broses ailbenderfynu yn dweud nad yw'n sicr o bell ffordd y byddai unrhyw gais am unrhyw linell 132kV yn llwyddo, gan gyfeirio at y ffaith bod yr Ysgrifennydd Gwladol ar 7 Medi 2015 wedi gwrthod llinell 132kV o Landinam i'r Trallwng a ystyriwyd yn yr Ymchwiliad. Ond nid yw EN-1 yn ei gwneud yn ofynnol i benderfynwyr fod yn fodlon y byddai cysylltiad yn cael ei ganiatáu; yn hytrach, nid yw ond gofyn bod penderfynwyr wedi'u bodloni nad oes rheswm amlwg pam mae caniatâd ar gyfer cysylltiad yn debygol o gael ei wrthod.

5.73. Fel y cofnodir yn llythyr penderfynu'r Ysgrifennydd Gwladol dyddiedig 7 Medi 2015 ar gyfer llinell 132kV o Landinam i'r Trallwng, y rheswm dros ei wrthod oedd bod yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y ceid effeithiau andwyol mawr ar y dirwedd ac effeithiau gweledol andwyol mawr pe bai llinell Llandinam 132kV wedi'i chaniatáu fel y'i cynigiwyd, ac y gallai niwed sylweddol fod wedi'i achosi i asedau treftadaeth ddiwylliannol. Gallai un o'r llwybrau amgen fod wedi arwain at lawer llai o niwed yn gyffredinol i asedau treftadaeth ddiwylliannol ac o ran effaith weledol, a thrwy hynny sicrhau mwy o gydymffurfiaeth â pholisïau Llywodraeth Cymru a Chynllun Datblygu Unedol Powys. Ar y sail honno, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn nad oedd y ceisydd yn yr achos hwnnw wedi rhoi digon o sylw i'w ddyletswyddau statudol o dan Atodlen 9 i Ddeddf 1989 wrth gyflwyno'r llwybr y gwnaed cais amdano. At hynny, nid oedd yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn ei bod yn briodol ei gwneud yn ofynnol i osod y cyfan neu ran o'r llinell o dan ddaear yn achos y llwybr a gynigiwyd o gofio bod dewis amgen ymarferol ar gael a gâi lai o effaith amgylcheddol a gweledol.

5.74. Bydd angen i unrhyw gais am gysylltu'r Datblygiad â'r Grid gael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod ei hun a bod yn dderbyniol o ran cynllunio a'r amgylchedd. Gan fod

penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol i wrthod llinell 132kV o Landinam i'r Trallwng yn ymwneud â'r llwybr a ddewiswyd yn yr achos penodol hwnnw, nid yw hyn yn golygu y byddai ceisiadau llinell 132kV eraill ym Mhowys yn cael eu gwrthod. Fel y nodwyd uchod, mae'r llythyr penderfynu yn yr achos hwnnw'n cofnodi bod yna lwybr ymarferol arall.

5.75. O dan yr amgylchiadau, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad oes rhesymau technegol, rhesymau cynllunio na rhesymau amgylcheddol amlwg wedi'u nodi pam na fyddai cysylltiad grid 132kV yn bosibl. At hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol o unrhyw reswm pam na fyddai'r Ceisydd yn cael cymeradwyaeth i gysylltu â System Drosglwyddo'r Grid Cenedlaethol yn y safle etifeddol. Gan hynny, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, mae'r prawf yn Adran 4.9 o EN-1 wedi'i fodloni.

5.76. Mae rhai Partïon â Buddiant wedi dadlau bod y Datblygiad a'r cysylltiad â'r grid yn rhan o'r un prosiect o ran yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ("yr EIA") a bod angen eu hystyried gyda'i gilydd fel un prosiect yn yr Ymchwiliad. Er hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod y Datblygiad ac unrhyw gysylltiad â'r grid yn rhan o'r un prosiect. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cydnabod y bydd angen cysylltiad grid ar y Datblygiad a bod yna gysylltiad gweithredol a swyddogaethol amlwg rhwng y Datblygiad ac unrhyw gysylltiad â'r grid. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd y Ceisydd yn mynd ar drywydd y Datblygiad oni bai ei fod yn ddigon hyderus y bydd ganddo gysylltiad â'r grid. Er hynny, mae'r cynllun deddfwriaethol yn rhag-weld ceisiadau ar wahân ar gyfer gorsafoedd cynhyrchu a'u cysylltiadau â'r grid (o dan adrannau 36 a 37 o Ddeddf 1989 yn y drefn honno), a gellir caniatáu cais am orsaf gynhyrchu yn gyfreithlon heb gael caniatâd hefyd (neu hyd yn oed gais) am gysylltiad â'r grid. (Yn hyn o beth, mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi bod gosodiadau cynhyrchu trydan a throsglwyddo ynni trydanol drwy gyfrwng ceblau uwchben wedi'u rhestru fel categorïau ar wahân o brosiectau yn Atodlen 2 i Reoliadau Gwaith Trydan (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2000 (y "Rheoliadau EIA".) Yn yr achos presennol, does dim cais am gysylltiad â'r grid wedi'i gyflwyno, ac mae'r ffaith nad oes gwybodaeth, er enghraifft, am union lwybr unrhyw gysylltiad â'r grid yn golygu na fyddai'n bosibl ar hyn o bryd gynnal unrhyw asesiad ystyrlon o effaith amgylcheddol cysylltiad â'r grid. Ni fydd union natur unrhyw gysylltiad â'r grid yn effeithio'n sylweddol ar natur y Datblygiad na'i effeithiau amgylcheddol, ac nid yw absenoldeb cais am gysylltiad â'r grid wedi atal y Datblygiad ei hun rhag cael ei asesu'n briodol.

5.77. Ymhellach, mae NPS EN-5 (NPS ar gyfer Seilwaith Rhwydweithiau Trydan) yn dweud: "National Grid, as the owner of the electricity transmission system in England and Wales, as well as Distribution Network Operators, are required under section 9 of the [1989 Act] to bring forward efficient and economical proposals in terms of network design, taking into account current and reasonably anticipated future generation demand. National Grid is also required to facilitate competition in the supply and generation of electricity and so has a statutory duty to provide a connection whenever or wherever one is required" (paragraff 2.3.5). Yn hyn o beth, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi bod y llys wedi cydnabod ei bod yn ddilys i wahanol gynigion datblygu perthynol gael eu cyflwyno ar wahanol adegau, ar yr amod nad yw datblygwr wedi "hollti " yr hyn sydd mewn gwirionedd yn un prosiect yn gyfres o brosiectau llai er mwyn osgoi gofynion y Rheoliadau EIA. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon nad yw hyn yn wir yma. Fel y nodwyd uchod, bydd

angen ystyried cais am gysylltiad â'r grid a wneir maes o law (boed yn 132kV neu 400kV) yn ôl ei deilyngdod ei hun a bod yn dderbyniol o ran cynllunio a'r amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys yr angen i gydymffurfio â gofynion y Rheoliadau EIA, os oes angen asesu'r cysylltiad yn unol â'r Rheoliadau hynny.

5.78. Mae partïon eraill â buddiant yn cyfeirio at fethiant honedig i gydymffurfio â pharagraff 4.9.3 o EN-1 sy'n gofyn, yn achos ceisiadau ar wahân, am "sufficient information to comply with the EIA Regulations including the indirect, secondary and cumulative effects, which will encompass information on grid connections". Serch hynny, barn yr Ysgrifennydd Gwladol yw nad oes digon o fanylion ar hyn o bryd am y cysylltiad i alluogi ei effeithiau i gael eu hystyried fel rhan o'r effeithiau cronnol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwybodol y bydd effeithiau unigol a chyfun y cysylltiad â'r grid yn cael eu hasesu'n llawn yn y cais am ganiatâd cynllunio pan fydd yn glir pa brosiect cysylltu y gwneir cais amdano, os oes angen asesu'r cysylltiad yn unol â'r Rheoliadau EIA. Drwy wneud hynny, cydymffurfir â'r Rheoliadau EIA.

<u>Polisïau Cynllunio</u>

*5.79.* Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried y polisïau a nodir yn EN-1, EN-3, a pholisïau cynllunio perthnasol Llywodraeth Cymru. Disodlwyd *Cynllun Datblygu Unedol Powys* (a fabwysiadwyd yn 2010), a oedd ar waith adeg yr Ymchwiliad, gan Gynllun Datblygu Lleol Powys 2011-2026, ond mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon na fu unrhyw newidiadau perthnasol yn y polisïau lleol sy'n effeithio ar ei ystyriaethau ar y cynnig. Am y rhesymau a nodir uchod ac yn yr Adroddiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon y byddai'r Datblygiad yn dderbyniol ac eithrio'r cynllun mynediad arfaethedig ar gyfer AILs [IR 650, 652, 653 a 669].

## 6. Canfyddiad a Chasgliadau mewn perthynas â'r Rheoliadau Cynefinoedd

6.1. Mae rheoliad 63 o Reoliadau Cadw Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'i diwygiwyd) ("y Rheoliadau Cynefinoedd") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a fyddai'r Datblygiad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Rhwydwaith Cenedlaethol fel y'i diffinnir yn y Rheoliadau Cynefinoedd. Os na ellir diystyru effaith o'r fath yn ystod y cam sgrinio, yna rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gynnal Asesiad Priodol ("AA") sy'n mynd i'r afael â'r goblygiadau ar gyfer y Safle'r Rhwydwaith Cenedlaethol o ystyried ei amcanion cadwraeth. Dylai'r AA ystyried effeithiau'r prosiect arfaethedig yn unigol a hefyd mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill. Yng ngoleuni unrhyw asesiad o'r fath, dim ond os cafwyd na fydd y Datblygiad, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â phrosiectau eraill, yn cael effaith andwyol ar gyfanrwydd safle o'r fath, oni bai nad oes dewisiadau amgen dichonadwy a rhesymau hanfodol dros fudd cyhoeddus tra phwysig y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol roi caniatâd.

6.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd sy'n ystyried a yw'r Datblygiad yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar Safle Rhwydwaith Cenedlaethol, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn cyfuniad â chynlluniau a phrosiectau eraill. Yn ystod y cam sgrinio, nododd yr Ysgrifennydd Gwladol un Safle Rhwydwaith Cenedlaethol (Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) y Berwyn) na ellid diystyru effeithiau arwyddocaol ar ei gyfer a chynhaliwyd AA i asesu effeithiau arwyddocaol tebygol y Datblygiad ar amcanion cadwraeth y safle hwnnw.

6.3. Daeth yr AA i'r casgliad na fyddai'r Datblygiad yn cael unrhyw effaith arwyddocaol debygol ar rywogaethau cymwys AGA Berwyn (hebog ieir, hebog, barcud coch a chudyll bach). Ar y sail honno, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon na fyddai'r Datblygiad, ar ei ben ei hun nac mewn cyfuniad, yn cael effaith andwyol ar amcanion cadwraeth AGA Berwyn.

6.4. Mae copi o Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y Datblygiad, a baratowyd ar sail Adroddiad a chyngor Cyfoeth Naturiol Cymru, ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-wind-farm-applications-redetermination.

## 7. Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

7.1. Yn unol ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a thrwy wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau i'r graddau y mae'n gyson ag arfer swyddogaethau o dan Ddeddf 1989 yn briodol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod yr Adroddiad yn ystyried effaith y Datblygiad ar fioamrywiaeth yn ddigonol, gan gynnwys coed a gweithrediad ecolegol safleoedd gwarchodedig ac effeithiau ar rywogaethau a warchodir a chydnerthedd ecosystemau. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi cynnwys amodau cynllunio sydd: yn lleihau'r effeithiau ar fywyd gwyllt, cynefinoedd a mawn yn ystod y gwaith o gwympo coed a chlirio llystyfiant ar y safle; yn sicrhau lefel foddhaol o ddiogelwch amgylcheddol; yn diogelu a rheoli cynefinoedd a rhywogaethau; yn darparu ar gyfer adfer cynefinoedd; ac yn sicrhau bod data a gwybodaeth amgylcheddol a gesglir yn cael eu cofnodi'n briodol, ac yn gwarchod natur. Wrth roi'r caniatâd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ei fodloni felly ei fod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## 8. Atodlen 9 i Ddeddf Trydan 1989

8.1. Yn unol â pharagraff 1 o Atodlen 9 i Ddeddf 1989, wrth ystyried y Cais, gan gynnwys y Datganiad Amgylcheddol, y sylwadau a gafwyd oddi wrth ymgyngoreion a phartïon eraill â buddiant, yr Adroddiad a'r holl wybodaeth berthnasol arall, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried dymunoldeb cadw harddwch naturiol, gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiolegol o ddiddordeb arbennig a dymunoldeb diogelu safleoedd, adeiladau a gwrthrychau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol. Mae o'r farn bod y Ceisydd wedi cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud yr hyn a all yn rhesymol i liniaru unrhyw effaith a gâi’r cynigion ar harddwch naturiol cefn gwlad neu ar unrhyw fflora, ffawna, nodweddion, safleoedd, adeiladau neu wrthrychau o'r fath. Mae’r mesurau a gymerwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn cynnwys gwrthod y cynllun mynediad arfaethedig ar gyfer AILs ar hyd y ffordd rhwng Llanerfyl a Thalerddig a chynnwys amodau cynllunio i sicrhau mesurau adfer a rheoli cynefinoedd a gynlluniwyd i wella'r safle er budd rhywogaethau penodol o fflora a ffawna.

## 9. Deddf Cydraddoldeb 2010

9.1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus roi sylw priodol i’r canlynol wrth iddynt arfer eu swyddogaethau:

(a) dileu gwahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd o dan y Ddeddf;

(b) hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu; ac

(c) hybu cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

9.2. Wrth roi sylw priodol i'r materion hyn, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried effeithiau posibl caniatáu neu wrthod y Cais yng nghyd-destun dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac mae wedi dod i'r casgliad nad yw penderfynu y naill ffordd neu'r llall yn debygol o arwain at unrhyw effeithiau gwahaniaethol o bwys ar bobl sy'n rhannu unrhyw un neu rai o'r nodweddion gwarchodedig.

9.3. Gan hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y byddai caniatáu neu wrthod y Cais yn arwain at effaith sylweddol ar unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio anghyfreithlon; ar gyfle cyfartal; nac ar gysylltiadau rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu.

**10. Deddf Hawliau Dynol 1998**

10.1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn na fyddai caniatáu'r Cais yn ymyrryd yn anghyfreithlon ag unrhyw hawliau a ddiogelir o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 ac felly na fyddai hynny'n anghyfreithlon o dan adran 6(1) o'r Ddeddf honno.

**11. Ystyriaeth yr Ysgrifennydd Gwladol ar Amodau'r Caniatâd a'r Amodau Cynllunio**

11.1. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yn ofalus y caniatâd adran 36 drafft yn Atodiad D i'r Adroddiad gan gynnwys yr amodau i'r caniatâd adran 36 ("amodau caniatâd ") a'r amodau cynllunio. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn cytuno, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau a restrir isod, fod yr amodau cynllunio yn addas i'w cynnwys mewn cyfarwyddyd o dan adran 90(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

<u>Caniatâd adran 36</u>

11.2. Amod caniatâd 2 – mae'r amod hwn wedi'i ddiwygio i ddileu'r cyfeiriad at fynediad ar hyd y llwybr a rennir a gynigiwyd yn flaenorol gyda fferm wynt Carnedd Wen.

11.3. Mae amod caniatâd 4(A) wedi'i ddiwygio i ddileu pŵer yr Awdurdod Cynllunio Lleol i wneud mân newidiadau amhenodol i'r caniatâd. Os oes angen diwygio'r caniatâd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y dylai hyn fod yn destun cais o dan adran 36C o Ddeddf 1989.

11.4. Amod caniatâd 4(C) – ychwanegwyd yr amod hwn fel na chaniateir i'r datblygiad (gan gynnwys cwympo coed a chlirio'r safle) ddechrau hyd nes y ceir caniatâd gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â llwybr mynediad addas ar gyfer AILs i'r safle.

<u>Amodau cynllunio</u>

11.5. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi dileu amod drafft yr Arolygydd a fyddai wedi gofyn am gymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Gwladol cyn y gellid trosglwyddo'r

caniatâd i barti arall. Nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod hyn yn angenrheidiol.

11.6. Amodau cynllunio (1), (25), (31), (33) a 38 – mae'r amodau hyn wedi'u diwygio i ddileu cyfeiriadau at y mynediad arfaethedig a rennir gyda fferm wynt Carnedd Wen.

11.7. Amod cynllunio (2) – mae'r amod hwn wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn glir, pan fo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol bŵer i gymeradwyo cynlluniau fel rhan o'r amodau cynllunio, na ddylid rhoi cymeradwyaeth os byddai hynny'n arwain at unrhyw effeithiau amgylcheddol sy'n sylweddol wahanol i'r rhai a aseswyd yn y Datganiad Amgylcheddol.

11.8. Amodau cynllunio (7), (8), (13), (37), (38), (39), (41), (43), (44) – mae'r amodau hyn, sy'n ymwneud â datgomisiynu, meicrosafleoedd, rheoli mawn, rheoli adeiladu amgylcheddol, rheoli cynefinoedd ac adar a rhywogaethau a warchodir, wedi'u diwygio i'w gwneud yn ofynnol ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru cyn i gynlluniau gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

11.9. Amod cynllunio (18) – mae'r amod hwn, sy'n darparu bod rhaid i bob tyrbin gwynt fod o ddyluniad echel lorweddol 3 llafn safonol, a bod rhaid i lafnau pob tyrbin gwynt gylchdroi i'r un cyfeiriad, wedi'i gynnwys er budd amwynder gweledol.

11.10. Amodau cynllunio (25), (26), (27) (28), (30), (31), (33), (34) a (35) – mae'r amodau hyn, sy'n ymwneud â gwaith priffyrdd, rheoli traffig ac AILs, wedi'u diwygio i'w gwneud yn ofynnol ymgynghori ag awdurdodau priffyrdd perthnasol cyn i gynlluniau a gwaith gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

11.11. Amodau cynllunio (26) a (27) – mae'r amodau hyn wedi'u diwygio i'w gwneud yn glir na chaniateir cwympo coed a chlirio safleoedd nes bod gwelliannau i gyffordd Talerddig yr A470 a'r gwaith sydd i'w wneud ar y briffordd o'r gyffordd honno i fynedfa'r Datblygiad wedi'u gwneud. Mae hyn yn adlewyrchu paragraff 657 o'r Adroddiad.

11.12. Amod cynllunio (30) – mae'r amod hwn wedi'i ddiwygio fel bod rhaid i'r cynllun rheoli traffig ar gyfer danfoniadau AILS gyd-fynd ag Adrannau 1, 2 a 3 o'r Cynllun Rheoli Traffig Strategol ar gyfer Ffermydd Gwynt Canolbarth Cymru (Awst 2012).

11.13. Amod cynllunio (32) – mae'r amod hwn wedi'i ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r Ceisydd arolygu'r rhannau o ffordd Llanerfyl i Dalerddig sydd i'w defnyddio gan draffig adeiladu mewn cysylltiad â'r cynllun ar gyfer gwaith adfer difrod y mae'r amod hwnnw'n gofyn amdano. Mae hyn yn adlewyrchu paragraff 660 o'r Adroddiad.

11.14. Amod cynllunio (54) – mae'r amod hwn wedi'i ddiwygio fel ei bod yn ofynnol i'r Ceisydd ddefnyddio'i ymdrechion rhesymol i weithredu'r cynllun hyfforddi a rheoli cyflogaeth.

11.15. Amod cynllunio (55) – mae'r amod hwn wedi'i ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at adroddiad sŵn AM WSP Parsons Brinkerhoff dyddiedig 25 Hydref 2016.

11.16. Yn ychwanegol at yr uchod, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwneud mân newidiadau eraill yn y caniatâd adran 36 a argymhellir nad ydynt yn newid ei effaith yn sylweddol, gan gynnwys newidiadau er budd eglurder a chysondeb ac i sicrhau bod y caniatâd yn cael yr effaith a fwriedir.

## 12. Penderfyniad ar Ailagor yr Ymchwiliad Cyhoeddus

12.1. Gosododd Rheol 23 o'r Rheolau Gweithdrefn Ymchwiliadau ofyniad ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gynnig cyfle i bartïon â buddiant gyflwyno sylwadau yn gofyn am ailagor yr Ymchwiliad. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol, fel y gwêl yn dda, beri i'r Ymchwiliad gael ei ailagor (boed gan yr un arolygydd ynteu un gwahanol). Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi o'r sylwadau a ddaeth i law, gydag ychydig iawn o eithriadau, nad oes awydd i ailagor yr Ymchwiliad. At hynny, nid yw'r Ysgrifennydd Gwladol yn credu bod digon o resymau dros ddefnyddio'i ddisgresiwn i wneud hynny, gan ei fod o'r farn bod ganddo ddigon o wybodaeth i wneud penderfyniad.

## 13. Casgliad yr Ysgrifennydd Gwladol a'i Benderfyniad ar y Cais

13.1. Wrth ddod i'w benderfyniad ar y Cais, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys y canlynol:

a. barn yr Arolygydd, y Ceisydd, Cyngor Sir Powys, Partïon â Buddiant ac eraill, barn ymgyngoreion statudol o dan y Rheoliadau Cynefinoedd, y Rheoliadau EIA, a Rheoliadau 1990 a sylwadau a wnaed ar ôl yr Ymchwiliad ac fel rhan o'r broses ailbenderfynu;

b. yr "wybodaeth amgylcheddol" o fewn ystyr y Rheoliadau EIA. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod gwybodaeth amgylcheddol ddigonol wedi'i darparu er mwyn iddo asesu effaith y Datblygiad;

c. polisïau'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr angen am seilwaith cynhyrchu trydan newydd ac ar ddatblygu hwnnw, ac yn benodol gorsafoedd cynhyrchu tyrbinau gwynt, fel y nodir yn EN-1 ac EN-3 a osodwyd gerbron y Senedd ac a ddynodwyd ar 19 Gorffennaf 2011 o dan Ddeddf Cynllunio 2008 a'r rhesymau a roddwyd dros y polisïau hynny yn yr NPSs, ac fel yr esboniwyd ym mharagraff 5.16 above mae'r rhain yn dal mewn grym tra bydd yr adolygiad, a gyhoeddwyd yn y Papur Gwyn ar Ynni, Powering Our Net Zero Future, yn cael ei gynnal;

d. polisïau Llywodraeth Cymru ar ynni a newid hinsawdd, fel y'i nodir yn *Polisi Cynllunio Cymru* (Argraffiad 11, Chwefor 2021) ac fel y'i hategir gan gylchlythyrau'r llywodraeth, llythyrau'r gweinidogion a Nodiadau Cyngor Technegol a hefyd y polisi cynllunio lleol perthnasol ar gyfer y Datblygiad;

e. y gofynion ynghylch gweithdrefn y Cais, y mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn eu bod wedi'u dilyn yn briodol;

f. dymunoldeb cadw harddwch naturiol, gwarchod fflora, ffawna a nodweddion daearegol neu ffisiograffig o ddiddordeb arbennig a dymunoldeb diogelu safleoedd, adeiladau a gwrthrychau o ddiddordeb pensaernïol, hanesyddol neu archaeolegol.

13.2. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried yn ofalus y materion a nodir uchod a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill ac, am y rhesymau a roddwyd yn y llythyr hwn,

mae wedi penderfynu y dylid rhoi caniatâd ar gyfer y Datblygiad, ac eithrio'r cynllun mynediad arfaethedig ar gyfer AILS ar hyd y o Lanerfyl i Dalerddig nad os caniatâd yn cael ei roi ar ei gyfer.

13.3. Wrth ddod i'w benderfyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi rhoi pwysau sylweddol ar yr angen dybryd am seilwaith cynhyrchu newydd (ac yn arbennig seilwaith carbon isel) o gapasiti'r Datblygiad. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn bod diwygio'r targed yn Neddf Newid yn yr Hinsawdd 2008 ar 26 Mehefin 2019 yn cynyddu'r pwysau y dylid eu rhoi.

13.4. Er ei fod yn cydnabod effeithiau andwyol y Datblygiad o ran tirwedd ac effaith weledol a thwristiaeth, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn nodi y byddai'r niwed yn cael ei gyfyngu i oes weithredol y Datblygiad, ac mae o'r farn bod manteision y Datblygiad o ran tirwedd ac effaith weledol sy'n deillio o glirio coedwigoedd ac adfer rhostir o leiaf yn cydbwyso ei effeithiau andwyol yn y tymor hirach. At hynny, byddai'r Datblygiad yn darparu cynnydd hirdymor net o ran cynefinoedd a bioamrywiaeth.

13.5. Er ei fod yn derbyn y bydd traffig adeiladu (gan gynnwys AILs) yn tarfu ac yn creu anghyfleustra yn ystod cyfnod adeiladu a chynnal a chadw'r Datblygiad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod modd lleihau'r rhain i lefel dderbyniol drwy gyfrwng y cynlluniau rheoli traffig sydd i'w sicrhau drwy amodau cynllunio.

13.6. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn fodlon y byddai effeithiau'r Datblygiad ar hydroleg, hydroddaeareg a mawn yn cael eu lliniaru gan yr amodau cynllunio ac yn dderbyniol. Byddai perygl llifogydd yn cael ei liniaru drwy gynlluniau i godi'r lefel trwythiad. Byddai effeithiau ar asedau treftadaeth ddiwylliannol yn dderbyniol. Ni cheid unrhyw niwed arwyddocaol i iechyd o sŵn, dirgryniad a chysgodion symudol. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod modd mynd i'r afael yn ddigonol â phryderon sy'n ymwneud â sŵn AM drwy gynnwys amod cynllunio. Ei gasgliad yw bod manteision y Datblygiad, ar y cyfan, yn drech na'i effeithiau andwyol.

13.7. Wrth ddod i'w benderfyniad, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried effeithiau'r Datblygiad yn unigol ac yn gronnol ac mewn cyfuniad â phrosiectau perthnasol eraill.

13.8. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y bydd yr amodau cynllunio yn sicrhau bod y Datblygiad yn mynd rhagddo ar ffurf a modd sy'n dderbyniol o ran polisi cynllunio ac yn nhermau'r amgylchedd, ac felly mae wedi penderfynu rhoi cyfarwyddyd adran 90(2) y bernir bod caniatâd cynllunio wedi'i roi yn ddarostyngedig i'r amodau cynllunio.

13.9. Gan hynny, rwy'n amgáu caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 36 o Ddeddf 1989 a chyfarwyddyd o dan adran 90(2) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, sydd hefyd wedi'i gyhoeddi yma:

https://www.gov.uk/government/publications/llanbrynmair-and-carnedd-wen-wind-farm-applications-redetermination

Wrth benderfynu pa ddeunydd i'w gyhoeddi yn Gymraeg, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi ystyried ei ddyletswyddau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a chynllun iaith Gymraeg yr Adran, sydd ar gael yma:

https://www.gov.uk/government/organisations/department-for-business-energy-and-industrial-strategy/about/welsh-language-scheme

## 14. Herio'r Penderfyniad

14.1. Gellir herio dilysrwydd penderfyniad yr Ysgrifennydd Gwladol drwy wneud cais i'r Uchel Lys am ganiatâd i ofyn am adolygiad barnwrol. Rhaid gwneud cais o'r fath yn brydlon a beth bynnag o fewn tri mis. Dylai partïon sy'n ceisio rhagor o wybodaeth am sut i fwrw ymlaen, gan gynnwys terfynau amser, ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol gan gyfreithiwr, neu fel arall gallant gysylltu â'r Llys Gweinyddol yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol, Strand, Llundain WC2 2LL (Ymholiadau Cyffredinol 020 7947 6025/6655).

Yn gywir,



Gareth Leigh

Pennaeth Cynllunio Seilwaith Ynni